Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru



# Cynnwys arbenigwyr-trwy-brofiad yn y broses o rannu gwybodaeth yn rhagweithiol: adolygiad cyflym

Dr Katie Crompton, Dr Rounaq Nayak, Amanda Hill-Dixon

Medi 2025

# Ein Cenhadaeth

Mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn darparu tystiolaeth ac arbenigedd annibynnol awdurdodol i weinidogion, uwch lunwyr polisi ac arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus sy'n eu helpu i ganfod ymatebion polisi effeithiol a datrysiadau ymarferol i rai o'r heriau polisi mwyaf sy'n wynebu Cymru.

Mae'r Ganolfan wedi gweithio ar amrywiaeth eang o heriau polisi ac, ar hyn o bryd, mae'n canolbwyntio'n benodol ar ddatblygu syniadau newydd am lesiant cymunedol, yr amgylchedd a sero net, yn ogystal ag anghydraddoldebau.

Mae'r Ganolfan yn gweithio mewn partneriaeth ag ymchwilwyr blaenllaw ac arbenigwyr polisi o bob cwr o'r byd, ac mae'n defnyddio ei gwaith gyda Llywodraeth Cymru a gwasanaethau cyhoeddus i ddatblygu dealltwriaeth o lunio polisïau a gweithrediadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Drwy secondiadau, lleoliadau PhD a'i rhaglen Prentisiaeth Ymchwil, mae'n arfogi ymchwilwyr ar ddechrau eu gyrfaoedd i ymgysylltu â gwaith ymchwil sy'n berthnasol i bolisi.

Mae'r Ganolfan yn aelod o Rwydwaith What Works y DU. Mae'n cysylltu llunwyr polisi ac arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru â'r ffynonellau ychwanegol hyn o dystiolaeth ac arbenigedd.

I gael rhagor o wybodaeth ewch i'n gwefan yn [www.wcpp.org.uk/cy/](http://www.wcpp.org.uk/cy/)

## Cyllidwyr Craidd

Sefydlwyd **Prifysgol Caerdydd** ym 1883. Mae'r Brifysgol wedi'i lleoli mewn prifddinas ffyniannus, ac mae'n sefydliad uchelgeisiol ac arloesol sy'n awyddus i feithrin cydberthnasau rhyngwladol cryf a dangos ei hymrwymiad i Gymru.

Mae'r **Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC)** yn rhan o UK Research and Innovation, sefydliad newydd sy'n dwyn ynghyd saith cyngor ymchwil y DU, Innovate UK a Research England, i sicrhau bod pob cyngor yn cyfrannu cymaint â phosib ac i greu'r amgylchedd gorau ar gyfer datblygu ymchwil ac arloesedd.

**Llywodraeth Cymru** yw llywodraeth ddatganoledig Cymru sy'n gyfrifol am feysydd allweddol o fywyd cyhoeddus, gan gynnwys iechyd, addysg, llywodraeth leol a'r amgylchedd.

# Cynnwys


**Crynodeb** **4**

**Cyflwyniad** **5**

Y cyd-destun ymarfer cyfredol 6

Cysyniadau allweddol 7

**Dull** **10**

Strategaethau chwilio a ffynonellau gwybodaeth 10

Meini Prawf Cynhwysiant 11

Dewis Astudiaethau 12

Integreiddio data 12

**Canfyddiadau** **13**

Canlyniadau chwilio 13

Cwestiwn Ymchwil 1: Pa dystiolaeth sy'n bodoli ar rôl arbenigwyr-trwy-brofiad yn y broses o rannu gwybodaeth yn rhagweithiol? 14

Cwestiwn Ymchwil 2: Pryd a sut y gall sefydliadau brocera gwybodaeth ddefnyddio arbenigedd profiad bywyd orau i lywio a siapio ein gwaith? 18

**Casgliad** **43**

**Cyfeirnodau** **45**

**Atodiad 1: Termau Chwilio** **51**

**Atodiad 2: Tabl Erthyglau** **52**

# Crynodeb


- Mae cydnabyddiaeth gynyddol o werth posibl cynnwys arbenigwyr-trwy-brofiad yn y broses o rannu gwybodaeth yn rhagweithiol. Mae'r adolygiad cwmpasu hwn yn integreiddio'r dystiolaeth bresennol ar rôl arbenigwyr-trwy-brofiad yn y broses o rannu gwybodaeth yn rhagweithiol ac ymchwil polisi.

- Ymchwilir i ddau gwestiwn ymchwil: 1) Pa dystiolaeth, llenyddiaeth, adnoddau ac arweiniad sy'n bodoli ar rôl arbenigwyr-trwy-brofiad yn y broses o rannu gwybodaeth yn rhagweithiol?; 2) Beth mae hyn yn ei ddweud wrthym ni ynghylch pryd a sut y gall sefydliadau brocera gwybodaeth[1] ddefnyddio arbenigedd-trwy-brofiad orau i lywio a siapio eu gwaith?

- Mae'r adolygiad hwn yn crynhoi'r mewnwelediadau allweddol o 41 o erthyglau a gyhoeddwyd dros y pedair blynedd diwethaf, gan dynnu sylw at y derminoleg amrywiol a ddefnyddir ar gyfer 'arbenigwyr-trwy-brofiad', gydag 14 o erthyglau'n canolbwyntio'n bennaf ar y broses o rannu gwybodaeth yn rhagweithiol.

- Mae'r llenyddiaeth yn nodi chwe sail resymegol allweddol ar gyfer cynnwys arbenigwyr-trwy-profiad. Mewn rhai amgylchiadau: (a) gall fod yn foesegol briodol; (b) gall wella dealltwriaeth o feysydd polisi ac ymchwil, yn enwedig o ran cwmpasu a nodi blaenoriaethau; (c) gall arwain at waith ymchwil mwy ystyrlon a gwerthfawr; (d) gall rymuso'r rheini sy'n cyfranogi; (e) gall helpu i ddatblygu camau gweithredu ar y cyd; (f) gall gynyddu effaith y gwaith ymchwil a gynhyrchir.

  Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod y rhan fwyaf o'r erthyglau a adolygwyd yn dadlau o blaid y dull hwn, ac wedi cael eu hysgrifennu gan awduron sydd wedi'i ddefnyddio, gan ffocysu'n amlach ar waith ymchwil yn hytrach na rhannu gwybodaeth yn rhagweithiol yn benodol.

- Efallai na fydd cynnwys arbenigwyr-trwy-brofiad yn addas ar gyfer pob prosiect, ond mae'n aml yn effeithiol mewn prosiectau sy'n ffocysu ar y broses o rannu gwybodaeth yn rhagweithiol at ddiben ymarfer yn hytrach na pholisi.

- Cyd-gynhyrchu oedd y dull methodolegol a ddefnyddiwyd amlaf, lle'r oedd arbenigwyr-trwy-brofiad yn rhan o'r broses o ddechrau cynllunio prosiect hyd at ledaenu canfyddiadau.

- Roedd bylchau yn y llenyddiaeth o ran dimensiynau ymarferol a logistaidd y gwaith hwn, er enghraifft recriwtio a chydnabyddiaeth ariannol arbenigwyr-trwy-brofiad. Mae hyn yn cynrychioli maes ar gyfer gwaith ymchwil yn y dyfodol.

- Bu pymtheg o erthyglau'n edrych ar gyfranogiad arbenigwyr-trwy-brofiad, gan gynnwys heriau yn ystod cam cynllunio prosiect sy'n ymwneud ag amser a chyfyngiadau cyllido, recriwtio, ystyriaethau moesegol, a sgiliau staff annigonol. Tynnwyd sylw hefyd at heriau o ran meithrin perthnasoedd gwaith effeithiol a rheoli safbwyntiau a disgwyliadau amrywiol.


[1] Yn benodol, Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, yn cydweithio â Chanolfannau What Works, gan gynnwys y Ganolfan Heneiddio'n Well, y Ganolfan Effaith Digartrefedd a Chanolfannau What Works eraill a sefydliadau cymheiriaid.

# Cyflwyniad

Mae cydnabyddiaeth gynyddol bod gan gynnwys arbenigwyr-trwy-brofiad yn y broses o rannu gwybodaeth yn rhagweithiol ac ymchwil polisi y potensial i gryfhau'r gwaith hwn drwy roi hwb i amrywiaeth a chynhwysiant yn ymarferol, a gwella ansawdd allbynnau.

**‘Mae’r cyhoedd yn defnyddio gwaith ymchwil cyhoeddus, ac yn gallu gweithredu fel cyfryngwyr dibynadwy; gallant yrru’r broses o ledaenu canfyddiadau i grwpiau perthnasol er mwyn llywio’r broses o wneud penderfyniadau a hwyluso newid.’**

(Swaithes, 2024)

Nod yr adolygiad cwmpasu hwn yw dod â’r dystiolaeth, y canllawiau a’r pecynnau cymorth sydd ar gael at ei gilydd ynghylch rôl bosibl ac optimaidd arbenigwyr-trwy-brofiad yn y broses o rannu gwybodaeth yn rhagweithiol. Y cwestiynau allweddol a oedd yn arwain yr adolygiad oedd:

1. Pa dystiolaeth, llenyddiaeth, adnoddau ac arweiniad sy’n bodoli ar rôl arbenigwyr-trwy-brofiad yn y broses o rannu gwybodaeth yn rhagweithiol?

2. Beth mae hyn yn ei ddweud wrthym ni ynghylch pryd a sut y gall sefydliadau brocera gwybodaeth[2] ddefnyddio arbenigedd-trwy-brofiad orau i lywio a siapio ein gwaith?

Cynhaliwyd yr adolygiad hwn i lywio polisi ac ymarfer o fewn Rhwydwaith What Works a sefydliadau cymheiriaid. Mae'n un elfen o Gymrodoriaeth Arloesedd Polisi ESRC.

---

2 Yn benodol, Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (CPCC), yn cydweithio â Chanolfannau What Works, gan gynnwys y Ganolfan Heneiddio'n Well, y Ganolfan Effaith Digartrefedd, Youth Futures Foundations, Canolfannau What Works eraill a sefydliadau cymheiriaid.

## Gwybodaeth am Gymrodoriaeth Arloesedd Polisi ESRC

Nod y Gymrodoriaeth Arloesedd Polisi ESRC hon yw ymchwilio i rôl arbenigwyr-trwy-brofiad yn y broses o rannu gwybodaeth yn rhagweithiol o fewn y Rhwydwaith What Works a thu hwnt. Dechreuodd ym mis Tachwedd 2023 a bydd yn dod i ben ym mis Ebrill 2025. Ei nod yw rhoi mwy o eglurder ynghylch pam, sut ac ym mha amgylchiadau y gall Sefydliadau Brocera Gwybodaeth gynnwys arbenigwyr-trwy-brofiad yn eu gwaith, yn ogystal ag eglurder ynghylch yr amgylchiadau lle gallai hyn fod yn amhriodol.

Dan arweiniad Dr Rounaq Nayak, ac yn cael ei chynnal gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, mae'n gydweithrediad gyda thair Canolfan What Works arall: Y Ganolfan Heneiddio'n Well, Youth Futures Foundation a'r Ganolfan Effaith Digartrefedd. Darperir cyngor arbenigol gan Sefydliad Joseph Rowntree, gyda chefnogaeth gan y Modern Slavery Policy Evidence Centre a'r Arsyllfa Polisi Cyhoeddus Ryngwladol (IPPO).

# Y cyd-destun ymarfer cyfredol

Mae profiad bywyd, fel y disgrifir gan Chandler a Munday (2016), yn cyfeirio at 'wybodaeth bersonol a gaffaelwyd drwy gyfranogiad uniongyrchol mewn digwyddiadau bob dydd'. Mae defnyddio arbenigedd unigolion sydd â phrofiad bywyd yn ddull gweithredu sydd wedi hen ymsefydlu ym maes ymchwil gofal iechyd (e.e. Grindell et al., 2022; Cloke et al., 2023; Langley et al., 2018). Yn fwy cyffredin, gelwir y dull yn 'gyfranogiad cleifion a'r cyhoedd' neu 'gyfranogiad defnyddiwr gwasanaeth', ac mae'n sicrhau bod gwaith ymchwil yn ffocysu ar faterion sy'n uniongyrchol berthnasol i gleifion a'r cyhoedd. Mae'r 'Polisi Cyfranogiad Cleifion a'r Cyhoedd', sydd wedi'i greu gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE), yn rhoi arweiniad ar arferion gorau. Yn ogystal, mae'r GRIPP2 (Canllawiau ar gyfer Adrodd ar Gyfranogiad Cleifion a'r Cyhoedd) yn cynnig fframwaith ar gyfer adrodd am waith ymchwil o'r fath (Staniszewska et al., 2017). Nod y rhestr wirio hon yw gwella ansawdd, tryloywder a chysondeb y sylfaen dystiolaeth ryngwladol ar gyfranogiad cleifion a'r cyhoedd (PPI), gan sicrhau bod arferion PPI yn seiliedig ar y dystiolaeth orau sydd ar gael. Yn ddiweddar, cyhoeddodd y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd a Gofal (NIHR) *How to Involve the Public in Knowledge Mobilisation* (NIHR, 2024), sy'n darparu cyngor ymarferol ar y pwnc hwn, gan ddefnyddio gwybodaeth o waith ymchwil ac ymarfer.

Mae eiriolwyr yn dadlau, pan fyddant yn cael eu cynnal yn yr amgylchiadau cywir, y gall cynnwys arbenigwyr-trwy-brofiad yn y broses o rannu gwybodaeth yn rhagweithiol ac ymchwil polisi ddarparu cyfleoedd cadarnhaol i'r unigolion hynny, yn ogystal â gwella ansawdd ac effaith allbynnau ymchwil. Mae'r dull hwn yn cael ei ddefnyddio'n helaeth ym maes ymchwil polisi cymdeithasol gymhwysol ac, yn fwy diweddar, mae wedi cael ei addasu i faes rhannu gwybodaeth yn rhagweithiol, yn enwedig yn y sector iechyd ond hefyd mewn meysydd eraill.

# Cysyniadau allweddol

## *Arbenigwyr-trwy-brofiad*

Mae un dull gweithredu rhannu gwybodaeth yn rhagweithiol ym maes llunio polisïau yn cynnwys ymgysylltu ag unigolion sydd â phrofiad bywyd o fater polisi penodol yn ystod y broses. Mae symudiad parhaus tuag at gynnwys arbenigwyr-trwy-brofiad mewn gwaith ymchwil sy'n mynd i'r afael yn uniongyrchol â'u hanghenion a'u profiadau (Johnston et al., 2021). Y tu hwnt i gynnwys unigolion sydd â phrofiad bywyd fel cyfranogwyr ymchwil, mae rhai eiriolwyr yn galw am eu cyfranogiad fel cynghorwyr, cyd-ymchwilwyr, partneriaid llawn, neu mewn rolau amrywiol eraill yn y broses ymchwil (Hawke et al., 2024). Mae'r newid hwn yn pwysleisio defnyddio arbenigedd unigolion sydd â phrofiad bywyd o fater penodol, yn hytrach na dim ond casglu tystiolaeth am brofiad bywyd. Gellir defnyddio'r term 'arbenigwyr-trwy-brofiad' pan fydd y ffocws ar gasglu arbenigedd, yn hytrach na thystiolaeth. Mae'r Experts-by-Experience Employment Initiative yn diffinio arbenigwyr-trwy-brofiad fel a ganlyn:

**'...pobl sydd â phrofiad uniongyrchol o faterion a heriau (o system mewnfudo a lloches y DU). Mae gan arbenigwyr-trwy-brofiad ddiddordeb mewn defnyddio eu profiadau bywyd o'r materion i helpu i fynd i'r afael ag anghenion, heriau ac anghyfiawnderau unigryw...'**

(Experts-by-Experience Employment Initiative, 2024)

Agwedd bwysig o'r diffiniad hwn yw nad yw'n awgrymu bod yn rhaid i arbenigwyr-trwy-brofiad rannu eu straeon personol o reidrwydd, ond yn hytrach eu bod yn defnyddio eu profiadau i ddarparu arbenigedd gwerthfawr. At ddibenion yr adolygiad cwmpasu hwn, y diffiniad o 'arbenigwyr-trwy-brofiad' yw:

**'...unigolion sy'n meddu ar brofiadau bywyd ac ymgysylltiad sylweddol â fframweithiau polisi, ymchwil a sefydliadol.'**

Mae'r diffiniad hwn yn cyfeirio at unigolion sydd wedi datblygu arbenigedd drwy gyfuno eu gwybodaeth profiadol personol o fater polisi (e.e. tlodi, digartrefedd, neu unigrwydd) â phrofiadau pobl eraill sydd wedi cael eu heffeithio yn yr un modd. Mae'r diffiniad wedi'i addasu o Beresford (2021) a Sandhu (2019). Mae'r unigolion hyn hefyd yn ymgysylltu â gwaith ymchwil, polisïau neu sefydliadau i rannu eu safbwyntiau, gan geisio llywio polisïau ac arferion mewn ffyrdd ystyrlon. Fodd bynnag, nid yw'r diffiniad hwn wedi dod i gonsensws eto ymysg y Canolfannau What Works (WWC) sy'n cymryd rhan. Mae pwynt trafod allweddol yn ffocysu ar safbwyntiau gwahanol ynghylch pwy sy'n cael eu hystyried yn arbenigwyr-trwy-brofiad. Mae un safbwynt yn awgrymu mai arbenigwyr-trwy-brofiad yw'r rheini sy'n mynd ati'n weithredol i integreiddio eu profiadau eu hunain â gwybodaeth gyfunol eraill y mae'r un mater polisi yn effeithio arnynt. Mae'r farn amgen yn nodi y dylai unigolion sydd â phrofiad bywyd neu brofiad parhaus o her polisi gael eu hystyried yn arbenigwyr-trwy-brofiad, ni waeth a ydynt wedi ymgysylltu yn y broses o integreiddio eu profiadau ag eraill ai peidio.

**Cysyniadau allweddol**

## *Rhannu gwybodaeth yn rhagweithiol*

Gellir diffinio rhannu gwybodaeth yn rhagweithiol fel 'llif cilyddol ac ategol, a'r defnydd o wybodaeth ymchwil rhwng ymchwilwyr, broceriaid gwybodaeth (y rheini sy'n rhannu gwybodaeth yn rhagweithiol) a defnyddwyr gwybodaeth... mewn ffordd a allai fod o fudd i ddefnyddwyr a chreu effeithiau cadarnhaol...' (Social Sciences and Humanities Research Council of Canada [SSHRC], 2016). Ei nod yw lleihau'r bwlch rhwng gwaith ymchwil ac ymarfer, wrth gryfhau'r cysylltiad rhwng y ddau ar yr un pryd. Er bod termau eraill fel 'lledaenu', 'cyfnewid gwybodaeth' a 'trosi gwybodaeth' yn aml yn cael eu defnyddio, mae rhannu gwybodaeth yn rhagweithiol 'yn dangos bod y gwaith hwn yn gofyn am ymdrech benodol, dros amser, gan weithio gydag eraill, ac mae'n ymwneud â llawer mwy na dweud wrth bobl am ganfyddiadau gwaith ymchwil' (Levin, 2013). Yn ôl Levin (2013), mae rhannu gwybodaeth yn rhagweithiol yn dasg gydweithredol, gymdeithasol, sy'n gofyn am bartneriaethau gweithredol ac nad oes modd ei chyflawni heb gyfranogiad ymchwilwyr, broceriaid gwybodaeth a defnyddwyr gwybodaeth mewn proses ddwyffordd.

Mae'r defnydd o wybodaeth i lywio polisïau ac ymarfer wedi'i hen sefydlu, yn seiliedig ar y cynsail y gellir crynhoi mewnwelediadau o dystiolaeth ymchwil a'u cymhwyso i wella datrysiadau polisi ac ymarfer, a datrys problemau (Tseng, 2012). Ar gyfer llunio polisïau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, mae rhannu gwybodaeth yn rhagweithiol rhwng ymchwilwyr a llunwyr polisïau, a allai gael ei hwyluso gan froceriaid gwybodaeth, yn rhan hanfodol o'r broses. Mae Rhwydwaith What Works (WWN) yn gydweithrediad o sefydliadau brocera gwybodaeth (KBO), sy'n cynnwys tair canolfan ar ddeg ledled y Deyrnas Unedig. Mae'r tair Canolfan What Works (CWW) ar ddeg, gan gynnwys Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, yn cefnogi'r gwaith o lunio polisïau drwy wneud tystiolaeth yn hygyrch ac yn ddealladwy i lunwyr polisi. Maen nhw'n integreiddio tystiolaeth ac yn rhannu tystiolaeth yn rhagweithiol er mwyn pontio'r bwlch rhwng gwaith ymchwil a pholisi (GOV.UK, 2024).

**Cysyniadau allweddol**

## *Tystiolaeth profiad bywyd yn erbyn arbenigedd profiad bywyd / arbenigwyr-trwy-brofiad*

Mae gwahaniaeth rhwng defnyddio tystiolaeth profiad bywyd at ddiben rhannu gwybodaeth yn rhagweithiol, a mynd ati'n weithredol i gynnwys arbenigwyr-trwy-brofiad yn y broses o rannu gwybodaeth yn rhagweithiol. Mae hyn yn adlewyrchu'r gwahaniaeth rhwng ymgysylltu ag arbenigwyr-trwy-brofiad fel cyfranogwyr ymchwil a gweithio gyda nhw fel 'cyd-ymchwilwyr' neu 'ymchwilwyr cymheiriaid'. Yn wir, mae enghreifftiau presennol o adolygiadau systematig neu adolygiadau cwmpasu sy'n defnyddio tystiolaeth o brofiad bywyd yn bennaf (e.e. Peters et al., 2021; Golann et al., 2019), yn ogystal ag enghreifftiau o froceriaid gwybodaeth yn casglu tystiolaeth sylfaenol gan bobl sydd â phrofiad bywyd, lle mae unigolion wedi rhannu eu straeon neu eu profiadau drwy ddulliau fel grwpiau ffocws, arolygon, neu adrodd straeon (e.e. Sovacool et al., 2021; Askew et al., 2022; Kanagasabai et al., 2023). Fodd bynnag, mae defnyddio arbenigedd-trwy-brofiad mewn prosiectau rhannu gwybodaeth yn rhagweithiol yn golygu gweithio'n uniongyrchol mewn partneriaeth ag arbenigwyr-trwy-brofiad i lywio, siapio neu gyd-gynhyrchu rhai neu bob elfen o'r gwaith.

Gall arbenigwyr-trwy-brofiad gyfrannu at gamau amrywiol wrth bennu agenda, megis nodi problemau, pennu meysydd ffocws y prosiect, a diffinio cwestiynau ymchwil. Mae'n bwysig nodi y gallant chwarae rhan mewn gosod agenda ar wahanol lefelau. Er enghraifft, gall arbenigwyr-trwy-brofiad gymryd rhan mewn gosod agenda ar lefel strategol a llywodraethu, gan ddylanwadu ar gyfeiriad sefydliad brocera gwybodaeth, neu gallant ffocysu ar fater polisi penodol, fel digartrefedd ymysg pobl sydd wedi gadael y carchar yn ddiweddar. Fel arall, gall eu cyfraniad fod yn gyfyngedig i osod yr agenda o fewn prosiect penodol, heb gyfrannu at osod agenda ar lefelau sefydliadol uwch.

Gan fod llawer o waith sefydliadau brocera gwybodaeth yn cynnwys gweithio gyda thystiolaeth o waith ymchwil, mae rôl arbenigwyr-trwy-brofiad yn aml yn cynnwys elfennau o integreiddio data, fel diffinio termau chwilio perthnasol, sgrinio tystiolaeth ar gyfer perthnasedd, ac adolygu canfyddiadau (e.e. Walker et al., 2021). O ran lledaenu canfyddiadau, gall arbenigwyr-trwy-brofiad ymwneud â chynhyrchu allbynnau a gallant gyd-gyflwyno mewn digwyddiadau rhannu gwybodaeth yn rhagweithiol.

Mae canllawiau ar gyfer cyfranogiad arbenigwyr-trwy-brofiad ym maes rhannu gwybodaeth yn rhagweithiol wedi'u hen sefydlu mewn gwaith ymchwil gofal iechyd (NIHR, 2024), ond nid yw canllawiau o'r fath yn bodoli eto ar gyfer rhannu gwybodaeth yn rhagweithiol mewn meysydd polisi ac ymarfer arall, y tu hwnt i bolisïau ac adnoddau mewnol sefydliadau brocera gwybodaeth unigol sydd heb eu cyhoeddi. O ganlyniad, mae angen adolygu'r dystiolaeth bresennol, gan ddefnyddio canllawiau ac arferion gorau, i gefnogi sefydliadau brocera gwybodaeth yn eu hymdrechion i gynnwys arbenigwyr-trwy-brofiad mewn prosesau rhannu gwybodaeth yn rhagweithiol.

# Dull

Cynlluniwyd yr adolygiad cwmpasu hwn gan ddefnyddio'r dull pum cam a ddatblygwyd gan Arksey ac O'Malley (2005). Mae'r pum cam yn cynnwys: (1) llunio'r cwestiynau ymchwil, (2) nodi astudiaethau perthnasol, (3) dewis astudiaethau cymwys, (4) mapio'r data, a (5) choladu, crynhoi ac adrodd ar y canlyniadau. Ar bob cam, roedd ein dull yn systematig ac yn dryloyw, gan lynu at y canllawiau Eitemau Adrodd a Ffafrir ar gyfer Adolygiadau Systematig ac ymestyn Meta-Dadansoddiadau ar gyfer adolygiadau cwmpasu (PRISMA-ScR) (Tricco et al., 2018). Nid oedd yr adolygiad yn cynnwys protocol adolygu cofrestredig. Dewiswyd adolygiad cwmpasu (yn hytrach na systematig) oherwydd y nod oedd mapio ehangder y wybodaeth a nodi bylchau yn y llenyddiaeth, yn hytrach na dadansoddi neu lywio canllawiau (Lockwood et al., 2019; Pollock et al., 2021).

## Strategaethau chwilio a ffynonellau gwybodaeth

Cafodd strategaeth chwilio ei datblygu, ei threialu a'i mireinio mewn ymgynghoriad â'r holl awduron. Roedd termau chwilio yn cynnwys geiriau allweddol yn ymwneud â thri phrif gysyniad: (1) arbenigwyr-trwy-brofiad; (2) rhannu gwybodaeth yn rhagweithiol; a (3) y math o lenyddiaeth / ddogfen. Gweler Atodiad 1 am restr gynhwysfawr o dermau chwilio, sydd hefyd yn cynnwys terminoleg amgen a ddefnyddir gan sefydliadau eraill ar gyfer 'arbenigwyr-trwy-brofiad'. Roedd hyn yn sicrhau bod y chwiliad yn ddigon eang i gynnwys astudiaethau a allai ddefnyddio iaith wahanol i ddisgrifio cysyniadau tebyg. Chwiliwyd y cronfeydd data canlynol ym mis Ebrill 2024: Google Scholar, Scopus, ScienceDirect, Web of Science, PubMed a Google. Profwyd nifer o strategaethau chwilio gan yr awdur cyntaf er mwyn optimeiddio adferiad cyfeiriadau oedd yn hysbys i'r ymchwilwyr a chynyddu'r tebygolrwydd y byddai'r holl astudiaethau perthnasol yn cael eu hadfer.

# Meini Prawf Cynhwysiant

Roedd yr adolygiad yn cynnwys yr holl gyfnodolion, llyfrau, papurau gwyn ac adroddiadau a adolygwyd gan gymheiriaid a oedd yn berthnasol i gyfranogiad arbenigwyr-trwy-brofiad yng nghyd-destun rhannu gwybodaeth yn rhagweithiol. Oherwydd cyfyngiadau o ran adnoddau a chyfyngiadau iaith yr awduron, dim ond astudiaethau a gyhoeddwyd yn Saesneg rhwng 2010 a 2024 a gafodd eu cynnwys. Cafodd astudiaethau a gyhoeddwyd cyn 2010 eu heithrio, gan nad oeddent, yn gyffredinol, yn mynd i'r afael â chyfranogiad arbenigwyr-trwy-brofiad ym maes rhannu gwybodaeth yn rhagweithiol. Roedd y meini prawf cymhwysedd yn gofyn bod astudiaethau o fewn parthau cyfranogiad arbenigwyr-trwy-brofiad a rhannu gwybodaeth yn rhagweithiol, a'u bod yn cynnwys un neu fwy o'r termau chwilio yn eu teitl neu grynodeb. Roedd yr eithriadau eraill yn cynnwys traethodau ymchwil graddau meistr, posteri, arolygon llenyddiaeth anffurfiol, ac erthyglau dyblyg. Adolygwyd yr holl bapurau a oedd yn bodloni'r meini prawf cynhwysiant. Mae Tabl 1 yn amlinellu'r meini prawf cynhwysiant ar gyfer yr erthyglau sydd i'w cynnwys yn yr adolygiad.

**Tabl 1: Meini Prawf Cynhwysiant**

| Meini Prawf Cynhwysiant |
|---|
| Cyhoeddwyd rhwng 2010 a 2024 |
| Cyhoeddwyd yn Saesneg |
| Astudiaethau empirig, sylwebaethau, adolygiadau, protocolau, crynodebau cynhadledd, tudalennau gwe, adroddiadau, penodau llyfrau |
| Yn cynnwys arbenigwyr-trwy-brofiad |
| Yn cynnwys rhannu gwybodaeth yn rhagweithiol |
| Yn ymateb i o leiaf un agwedd ar y cwestiynau ymchwil |

## Dewis Astudiaethau

Mewnforiwyd canlyniadau'r chwiliad llenyddiaeth i'r platfform cydweithredu ymchwil, Rayyan, ble gwnaeth yr ail awdur ddileu erthyglau dyblyg. I gychwyn, cafodd y teitlau a'r crynodebau eu sgrinio gan yr ail awdur, a chynhaliwyd sgrinio eilaidd gan y cyd-awduron. Adferwyd cyhoeddiadau a allai fod yn berthnasol ar ffurf testun llawn, ac fe'u sgriniwyd gan yr ail awdur. Cafodd unrhyw ymholiadau ynghylch cynnwys erthyglau eu datrys drwy drafodaeth a chonsensws ymysg yr awduron.

## Integreiddio data

Datblygwyd ffurflen mapio data yn Microsoft Excel a'i pheilota gan yr awduron. Roedd profion peilot yn cynnwys adolygu sampl gynrychioliadol o erthyglau i nodi data coll neu ddata diangen. Cafodd gwybodaeth ddisgrifiadol sylfaenol yr astudiaeth ei thynnu i mewn i'r daenlen Excel. Roedd hyn yn cynnwys nodweddion erthygl (awdur/awduron, gwlad ymlyniad yr awdur / awduron, blwyddyn, math o erthygl, cwmpas / diben yr erthygl), rhesymeg a dulliau ar gyfer ymgysylltu ag arbenigwyr-trwy-brofiad, y dulliau a ddefnyddiwyd mewn prosiectau ymchwil, a rhwystrau a galluogwyr i ddefnyddio dull o'r fath. Gan nad oedd yr astudiaeth hon yn anelu at werthuso cryfder yr astudiaethau na'u methodolegau, ni wnaethom ddefnyddio offer arfarnu ansawdd na thechnegau meta-ddadansoddi i asesu effeithiolrwydd ymyriadau penodol (Chick et al., 2019). Cafodd y data ei grynhoi'n draethiadol ar sail y categorïau a'r themâu a godwyd o'r erthyglau a oedd wedi'u cynnwys.

# Canfyddiadau

## Canlyniadau chwilio

Fe wnaeth y canlyniadau chwilio o'r chwe chronfa ddata gynhyrchu 481 o gyfeiriadau a allai fod yn berthnasol. Cafodd 48 o ddyblygiadau eu dileu. Ar ôl sgrinio'r teitlau a'r crynodebau yn erbyn y meini prawf cynhwysiant, cafodd 332 erthygl arall eu heithrio, gan adael 101 o erthyglau ar gyfer adolygiad testun llawn. Roedd 41 erthygl yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd ac roeddent wedi'u cynnwys yn yr adolygiad terfynol. Crynhoir canlyniadau'r chwiliad a'r wybodaeth a dynnwyd o'r 41 erthygl hyn yn Atodiad 2.

Gyda set derfynol o 41 o erthyglau yn bodloni'r meini prawf, y cam nesaf oedd archwilio'r erthyglau hyn yng nghyd-destun ein dau brif gwestiwn ymchwil. Mae Cwestiwn Ymchwil 1 (CY1) yn ffocysu ar ddeall graddfa a natur y sylfaen dystiolaeth bresennol ynghylch rôl arbenigwyr-trwy-profiad ym maes rhannu gwybodaeth yn rhagweithiol. Mae hyn yn cynnwys dadansoddiad o ble y cynhaliwyd y gwaith ymchwil, yn ddaearyddol ac o ran meysydd polisi, yn ogystal â nodweddion cyffredinol y sylfaen dystiolaeth. Mae Cwestiwn Ymchwil 2 (CY2) yn edrych ar y rolau penodol y mae arbenigwyr-trwy-brofiad yn eu chwarae wrth rannu gwybodaeth yn rhagweithiol, gan archwilio'r cyd-destunau lle mae eu cyfraniad yn fwyaf effeithiol. Mae'r adrannau canlynol yn cyflwyno'r canfyddiadau ar gyfer pob un o'r cwestiynau ymchwil hyn.

# CY1: Pa dystiolaeth sy'n bodoli ar rôl arbenigwyr-trwy-brofiad yn y broses o rannu gwybodaeth?[3]

## *Nodweddion Erthygl*

Er mai dim ond lleiafrif o'r papurau a adolygwyd oedd yn ffocysu ar rôl arbenigwyr-trwy-brofiad ym maes rhannu gwybodaeth yn rhagweithiol, yn hytrach na gwaith ymchwil, gall rhai o'r canfyddiadau a'r argymhellion fod yn drosglwyddadwy i brosesau rhannu gwybodaeth yn rhagweithiol. Cafodd y rhan fwyaf o'r erthyglau eu cyhoeddi rhwng 2020 a 2024 (n=36, 88%). Cafodd pedair (10%) o'r erthyglau eu cyhoeddi rhwng 2015 a 2019, a chyhoeddwyd un (2%) yn gynharach, yn 2013.

Cafodd bron i hanner yr erthyglau eu cyhoeddi yn y DU (n=20, 49%), gyda naw arall (21%) o Ganada, pedwar (9%) o Awstralia, a thri (7%) o'r Unol Daleithiau. Cyhoeddwyd pum erthygl (12%) mewn gwledydd eraill, gan gynnwys Sbaen, Uganda, Groeg, Seland Newydd a De Affrica.

Roedd y rhan fwyaf o'r erthyglau naill ai'n astudiaethau empirig (n=14, 34%) neu'n sylwebaethau (n=15, 37%), a gyhoeddwyd mewn cyfnodolion academaidd. Roedd mathau eraill o erthyglau'n cynnwys protocolau (n=3, 7%), adolygiadau (n=3, 7%), adroddiadau (n=2, 5%), yn ogystal ag un traethawd ymchwil, un bennod llyfr, un crynodeb cynhadledd, ac un dudalen we.

Y maes mwyaf cyffredin o arbenigedd-trwy-brofiad oedd mewn materion gofal iechyd (n=10, 24%). Roedd meysydd eraill o arbenigedd-trwy-brofiad yn cynnwys dibyniaeth ar sylweddau neu alcohol (n=3, 7%), gwahaniaethu ar sail hil (n=2, 5%), materion iechyd meddwl (n=5, 12%), dementia (n=3, 7%), tlodi (n=3, 7%), materion newid hinsawdd (n=4, 9%), pobl ifanc â phrofiadau bywyd niweidiol (n=5, 5%), ac addysg (n=5, 5%). Roedd arbenigedd profiad bywyd arall, lle mai dim ond un erthygl oedd yn gymwys ar gyfer pob un, yn cynnwys masnachu pobl, digartrefedd, awtistiaeth a thrais domestig. Roedd pedair erthygl (10%) yn ffocysu ar arbenigedd profiad bywyd yn gyffredinol, e.e. sylwebaeth ar gynnwys arbenigwyr-trwy-brofiad ym maes rhannu gwybodaeth yn rhagweithiol.

Er bod pob erthygl yn cynnwys rhyw fath o rannu gwybodaeth yn rhagweithiol, nid dyma'r prif ffocws bob tro. Roedd pedwar ar ddeg (34%) o'r erthyglau'n ymwneud yn bennaf â rhannu gwybodaeth yn rhagweithiol, wyth (20%) yn ymwneud yn bennaf â llunio polisïau, tri (7%) yn ymwneud yn bennaf ag ymarfer, a'r 25 (60%) sy'n weddill yn ffocysu ar ymchwil nad oedd yn ymwneud yn uniongyrchol â rhannu gwybodaeth yn rhagweithiol, polisi nac ymarfer, er enghraifft Cyd-gynhyrchu *Rapid Research: Strengths and Challenges from a Lived Experience Perspective* (Machin et al., 2023).

3 Mae'r cwestiwn ymchwil wedi'i fyrhau at ddiben yr is-bennawd.

### Tabl 2: Nodweddion Erthyglau

| Nodwedd | | Nifer | % |
|---|---|---|---|
| **Blwyddyn cyhoeddi** | 2020-2024 | 36 | 88% |
| | 2015-2019 | 4 | 10% |
| | 2010-2014 | 1 | 2% |
| **Gwlad** | Y Deyrnas Unedig | 20 | 49% |
| | Canada | 9 | 21% |
| | Awstralia | 4 | 9% |
| | UDA | 3 | 7% |
| | Arall* | 5 | 12% |
| **Math o Ddogfen** | Sylwebaeth (cyhoeddwyd mewn cyfnodolyn academaidd) | 15 | 37% |
| | Astudiaeth Empirig | 14 | 34% |
| | Protocol | 3 | 7% |
| | Adolygiad Cwmpasu / Systematig / Llenyddiaeth | 3 | 7% |
| | Adroddiad | 2 | 5% |
| | Arall ** | 4 | 9% |
| **Math o brofiad bywyd** | Mater gofal iechyd | 10 | 24% |
| | Problemau iechyd meddwl | 5 | 12% |
| | Mater newid hinsawdd | 4 | 10% |
| | Dementia | 3 | 7% |
| | Tlodi | 3 | 7% |
| | Gwahaniaethu ar sail hil | 2 | 5% |
| | Dibyniaeth ar sylweddau neu alcohol | 2 | 5% |
| | Ieuenctid | 2 | 5% |
| | Addysg | 2 | 5% |
| | Arall ** | 4 | 10% |
| | Amhenodol | 4 | 10% |
| **Prif ffocws** | Rhannu gwybodaeth yn rhagweithiol | 14 | 34% |
| | Llunio polisïau | 8 | 20% |
| | Ymarfer | 3 | 7% |
| | Ymchwil | 25 | 60% |

* De Affrica, Sbaen, Seland Newydd, Uganda, Groeg

** Traethawd Ymchwil, Pennod Llyfr, Crynodeb Cynhadledd, Tudalen We

*** Masnachu Pobl, Digartrefedd, Awtistiaeth, Trais Domestig

CY1

## Termau a diffiniadau ar gyfer arbenigwyr-trwy-brofiad

Er bod CPCC a rhai Canolfannau What Works eraill yn defnyddio'r term 'arbenigwyr-trwy-brofiad' i ddisgrifio unigolion sydd â phrofiad bywyd sy'n ymwneud â phrosiectau ymchwil a rhannu gwybodaeth yn rhagweithiol, nid dyma'r term a ddefnyddir fwyaf yn y llenyddiaeth ehangach. Nododd yr erthyglau yn yr adolygiad cwmpasu hwn amrywiaeth o dermau a ddefnyddir i ddisgrifio arbenigwyr-trwy-brofiad. Roedd y rhain yn cynnwys:

- ‘arbenigwyr profiad bywyd’
- ‘cyd-ymchwilwyr sy’n gleifion’
- ‘cyfranogiad cleifion a’r cyhoedd’
- 'defnyddiwr gwasanaeth’
- ‘cydweithredwyr cymheiriaid’
- ‘goroeswyr’
- ‘ymgynghorwyr profiad bywyd’
- ‘ymchwilwyr profiad bywyd’

Roedd termau fel ‘cyd-ymchwilwyr sy’n gleifion’, ‘cyfranogiad cleifion a’r cyhoedd,’ neu ‘defnyddiwr gwasanaeth’ yn cael eu defnyddio’n aml mewn prosiectau rhannu gwybodaeth yn rhagweithiol sy’n ymwneud ag iechyd (e.e. Hughes et al., 2024; Walker et al., 2021; Campbell et al., 2021). Defnyddiwyd y term ‘goroeswyr’ gan LEAP, y Lived Experience Advisory Panel (Human Trafficking Foundation, 2023). Yn adroddiad blynyddol LEAP, defnyddiwyd y term hwn yn gyfnewidiol gydag ‘arbenigwyr profiad bywyd’, ‘ymgynghorwyr profiad bywyd’ ac ‘arbenigwyr-trwy-brofiad’. Defnyddiwyd y term ‘ymchwilwyr profiad bywyd’ gan yr Uned Ymchwil Polisi Iechyd Meddwl (Machin et al., 2023). Roedd termau eraill yn cynnwys ‘pobl â phrofiad bywyd’ o faterion penodol, fel digartrefedd (Campbell et al., 2021), a ‘cydweithredwyr cymheiriaid’, er enghraifft mewn prosiect oedd yn gweithio gyda phobl â dementia (Reid et al., 2023). Roedd yn fwy cyffredin i erthyglau ddiffinio 'profiad bywyd' yn hytrach na'r term a ddefnyddir ar gyfer yr arbenigwyr eu hunain.

Cynigiodd nifer fach o erthyglau ddiffiniadau penodol. Diffiniwyd arbenigwyr profiad bywyd fel a ganlyn:

**'...unigolion, eu gofalwyr ac aelodau teulu sy'n cael eu heffeithio'n uniongyrchol gan (fater) y mae eu gwybodaeth amrywiol a phersonol yn rhoi'r gallu unigryw i bob unigolyn drosi profiad bywyd yn newid system ystyrlon'**

(Santaella, 2023, t. 4)

Mae'r diffiniad hwn yn pwysleisio bod yr unigolion sy'n profi mater yn uniongyrchol yn gallu cael eu hystyried yn arbenigwyr, yn ogystal â phobl sy'n darparu gofal ac aelodau o deulu'r unigolion hynny. Mae ail ddiffiniad o'r llenyddiaeth yn disgrifio ymchwilwyr â phrofiad bywyd fel a ganlyn:

**'...pobl â phrofiad personol o faterion iechyd meddwl ac o gymryd rhan mewn gwaith ymchwil'**

(Machin et al., 2023, t. 1)

Er nad oedd y diffiniadau bob amser yn glir, daeth yn amlwg o ddarllen yr erthyglau bod y term 'arbenigwyr-trwy-brofiad', yn y rhan fwyaf o achosion, yn cyfeirio at y rheini yr oedd mater yn effeithio arnynt a oedd yn ymwneud â phrosiectau ymchwil neu rannu gwybodaeth yn rhagweithiol mewn rhyw ffordd. Nid oedd yn glir a oedd ymchwilwyr a sefydliadau yn diffinio arbenigedd fel rhywbeth sy'n galw am ymgysylltu blaenorol â pholisi, ymarfer neu ymchwil. Datgelodd yr erthyglau gymysgedd o unigolion a oedd yn cyfranogi at brosiectau a oedd yn byw gyda materion penodol ar hyn o bryd, neu a oedd â phrofiad bywyd blaenorol ohonynt. Roedd hyn yn cael ei bennu amlaf gan ddiben a ffocws yr erthygl. Er enghraifft, roedd erthyglau ar ddementia neu awtistiaeth yn aml yn ymwneud â'r rheini sy'n byw gyda'r cyflyrau hyn ar hyn o bryd, fel y gwnaeth llawer o erthyglau oedd yn ymwneud â gofal iechyd. I'r gwrthwyneb, roedd erthyglau a oedd yn canolbwyntio ar faterion iechyd meddwl neu drawma yn ymwneud yn fwy aml ag unigolion â phrofiad bywyd blaenorol.

# CY2: Pryd a sut y gall sefydliadau brocera gwybodaeth ddefnyddio arbenigedd profiad bywyd orau i lywio a siapio ein gwaith?

## *Pryd i ddefnyddio arbenigedd profiad bywyd*

Un o nodau'r adolygiad hwn oedd cael gwell dealltwriaeth o'r amgylchiadau lle mae'n debygol o fod yn ddefnyddiol, yn foesegol ac yn briodol defnyddio arbenigedd profiad bywyd mewn gweithgareddau rhannu gwybodaeth yn rhagweithiol.

Roedd y dystiolaeth a adolygwyd yn darparu gwybodaeth gyfyngedig ynghylch pryd, neu dan ba amgylchiadau, y byddai'n well defnyddio'r dull hwn. Yn eu herthygl barn ar 'gyfuno' pobl ifanc â materion iechyd meddwl wrth integreiddio data, mae Beames et al. (2021, t. 2) yn nodi:

**'Gall nodau adolygiadau, a mathau o ddehongliadau sy'n dilyn, benderfynu a yw cyfuno'n briodol. Mae'n bosibl bod argymhellion sy'n uniongyrchol berthnasol i unigolion a grwpiau yn y gymuned, er enghraifft y rheini sydd wedi'u hanelu at ddatblygu rhaglenni, darparu gwasanaethau, ac ymarfer clinigol, yn fwy tebygol o alinio â'r lens profiad bywyd.'**

This article highlights that the involvement of experts-by-experience may not be appropriate in every project, but often works well in projects aimed at mobilising knowledge for service delivery and practice improvement.

There was a lack of information in the articles explaining when it may be best to draw on expertise-by-experience in knowledge mobilisation specifically related to policy. However, there were examples of projects that utilised this approach for policy purposes, such as: working with citizens to co-design energy and climate policy recommendations, part of which involved mobilising knowledge (Willis et al., 2024); co-developing policy guidelines with community activists on conducting ethically safe HIV molecular epidemiology (Cholette et al., 2023); and producing community-led alcohol policy, where people who use alcohol were central to the knowledge mobilisation and policy development process (Bailey et al., 2023).

Roedd yn bosibl defnyddio gwybodaeth werthusol a ddarparwyd mewn llawer o'r erthyglau i ddeall pryd y gallai fod yn briodol, neu ddim, i gynnwys arbenigwyr-trwy-brofiad mewn prosiectau:

- Cyfyngiadau cyllido: I gychwyn, gall cyfyngiadau cyllido bennu pryd y mae'n briodol cynnwys arbenigwyr-trwy-brofiad mewn prosiect (Fitzpatrick et al., 2023). Mae angen hyblygrwydd digonol o fewn trefniadau cyllido i ganiatáu ar gyfer dulliau cyd-gynhyrchu (Hawke et al., 2024).

- Cyfyngiadau amser: Gan fod llawer o brosiectau'n destun cyfyngiadau amser, efallai mai dim ond pan fydd digon o amser i'w wneud yn dda y bydd y dull hwn yn briodol. Mae hyn yn cynnwys neilltuo digon o amser i feithrin perthynas o ymddiriedaeth rhwng ymchwilwyr neu froceriaid gwybodaeth ac arbenigwyr-trwy-brofiad (Machin et al., 2023).

- Capasiti staff a hyfforddiant: Roedd un erthygl yn tynnu sylw at bwysigrwydd sicrhau bod gan staff y profiad a'r sgiliau angenrheidiol i fabwysiadu dull cyfranogol yn effeithiol ac yn foesegol (Hugh-Jones et al., 2024).

- Osgoi cynnwys tocynistaidd: Er mwyn osgoi cyfranogiad tocynistaidd, mae'n bwysig cael eglurder ynghylch diben cynnwys arbenigwyr-trwy-brofiad mewn prosiect (Walker et al., 2021).

CY2

## Gwerth cynnwys arbenigwyr-trwy-brofiad

Er bod gwybodaeth am bryd ac ym mha amgylchiadau y gallai fod yn well cynnwys arbenigwyr-trwy-brofiad yn brin, amlygwyd y rhesymeg dros gynnwys unigolion â phrofiad bywyd yn y broses o rannu gwybodaeth yn rhagweithiol yn y rhan fwyaf o erthyglau. Yn aml, mae cysylltiad agos rhwng y rhesymeg hon a gwerth ymgysylltu â dull o'r fath. Roedd deg ar hugain o erthyglau (70%) yn egluro eu rhesymeg dros gynnwys arbenigwyr-trwy-brofiad ym maes rhannu gwybodaeth yn rhagweithiol, ac roedd 26 o erthyglau (60%) yn amlinellu gwerth dull o'r fath. Gellir categoreiddio canfyddiadau'r data yn chwe thema sy'n ymwneud â'r potensial ar gyfer:

- ***Cynyddu dilysrwydd moesegol darn o waith***
- ***Cyfleoedd ar gyfer grymuso***
- ***Cynhyrchu allbynnau mwy gwerthfawr ac ystyrlon***
- ***Datblygucamau gweithredu ar y cyd***
- ***Dulliau cwmpasu a nodi blaenoriaethau mwy effeithiol***
- ***Mwy o effaith ar bolisi ac ymarfer ac, yn y pen draw, ar gymunedau***

## Cynyddu dilysrwydd moesegol darn o waith

Un ddadl dros gynnwys arbenigwyr-trwy-brofiad wrth rannu gwybodaeth yn rhagweithiol yw y gall dull o'r fath hyrwyddo mwy o gynhwysiant ac amrywiaeth, a thrwy hynny wella safonau moesegol (Beames et al., 2021). Awgrymwyd bod gan unigolion sydd â phrofiad bywyd 'hawl moesol' i fod yn rhan o waith ymchwil sy'n berthnasol i'w profiadau (Grindell et al., 2022), gan dynnu sylw at bwysigrwydd caniatáu iddynt gyfrannu at faterion sy'n effeithio arnynt yn uniongyrchol, mewn ffordd gynhwysol (Santaella et al., 2023). Fel y nododd Fitzpatrick et al. (2023, t. 2):

**'mae gan y rheini o grwpiau a ymyleiddiwyd yr hawl i gymryd rhan mewn gwaith ymchwil, llunio polisïau a dylunio gwasanaethau sy'n ceisio eu cynrychioli a / neu fynd i'r afael â'u buddiannau'**

Gall cyfranogiad arbenigwyr-trwy-brofiad hyrwyddo perchnogaeth a rhoi llais i'r rheini sy'n aml yn cael eu heithrio o awdurdod naratif, gan helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau (McQuaid et al., 2021). Fel y pwysleisiodd Cloke et al. (2023, t. 3), mae cynnwys y rheini sydd â phrofiad bywyd yn helpu i ail-gydbwyso dynameg pŵer drwy:

**'barchu a gwerthfawrogi'r wybodaeth y maen nhw [partneriaid allweddol] yn ei gyflwyno i drafodaethau'.**

Fodd bynnag, mae'n hanfodol nad yw'r rhesymeg hon dros gynnwys arbenigwyr-trwy-brofiad yn arwain at fathau tocynistaidd o ymgysylltu. Mae'r rhesymeg ddemocrataidd hon yn dibynnu ar yr amgylchiadau penodol dan sylw a'r dulliau a ddefnyddir, fel y trafodir yn fanylach yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

## Cynhyrchu allbynnau mwy gwerthfawr ac ystyrlon

Sail resymegol gyffredin ar draws yr erthyglau ar gyfer cynnwys arbenigwyr-trwy-brofiad ym maes rhannu gwybodaeth yn rhagweithiol yw'r potensial ar gyfer cynhyrchu allbynnau mwy ystyrlon ac o ansawdd uwch. Mae gwybodaeth a phrofiad yn ganolog i ymchwil polisi, ac mae'r llenyddiaeth yn dangos pan fydd maes polisi'n cael ei drafod yn gynnar gyda grŵp o ddinasyddion, bod y polisi sy'n deillio o hynny fel arfer yn fwy cadarn (Willis et al., 2024). Dywedir bod y dull hwn yn cynyddu atebolrwydd a thryloywder allbynnau (Walker et al., 2021), gwella eu hansawdd a'u perthnasedd (Redman et al., 2021), a sicrhau eu bod yn alinio ag anghenion y rheini y bwriedir iddynt elwa.

Gall dyfnder ehangach y dystiolaeth a gafwyd o brofiad bywyd gryfhau dibynadwyedd a dilysrwydd allbynnau (Hughes et al., 2024) ac, yn aml, mae'n arwain at fwy o ymddiriedaeth yn y canfyddiadau (Beames et al., 2021). Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi nad oedd yr un o'r erthyglau yn yr adolygiad hwn wedi mesur yn benodol effaith yr allbynnau hyn ym maes rhannu gwybodaeth yn rhagweithiol.

## *Dulliau cwmpasu a nodi blaenoriaethau mwy effeithiol*

Roedd llawer o erthyglau'n pwysleisio gwerth cynnwys arbenigwyr-trwy-brofiad ym maes rhannu gwybodaeth yn rhagweithiol, yn benodol yng nghamau cychwynnol prosiect, a oedd yn werthfawr o ran sefydlu meysydd blaenoriaeth a phwyntiau ffocws ar gyfer integreiddio tystiolaeth a rhannu gwybodaeth yn rhagweithiol (e.e. Flynn, 2023; Santaella et al., 2023; Hughes et al., 2024; Human Trafficking Foundation, 2024; ASPE, 2022; Beames et al., 2021; et Sinclair al., 2023). Fel y disgrifiodd Langley et al. (2017, t. 334):

**'Mae angen deall prosesau sy'n benodol i'r cyd-destun yn well, sy'n anodd eu disgrifio heb ddeall pwy, ble, beth a pham.'**

Gall cynnwys arbenigwyr-trwy-brofiad o'r cychwyn ddarparu gwell dealltwriaeth o feysydd ffocws, gan sicrhau bod gwaith ymchwil a rhannu gwybodaeth yn rhagweithiol yn mynd i'r afael â'r materion allweddol sy'n fwyaf perthnasol i'r rheini yr effeithir arnynt fwyaf. Mae hefyd yn caniatáu archwiliad beirniadol o fannau dall a rhwystrau proffesiynol a sefydliadol (Phipps et al., 2021). Gweithiodd Sinclair et al. (2023) gydag arbenigwyr-trwy-brofiad i nodi'r deg blaenoriaeth uchaf ar gyfer casglu tystiolaeth ar gyfer gwaith ymchwil, polisi ac ymarfer clinigol ar gyfer oedolion awtistig sydd ag anhwylderau cysylltiedig â defnyddio alcohol neu sylweddau eraill. Nodwyd bod cynnwys arbenigwyr-trwy-brofiad wedi helpu i nodi pryderon yn well a nodi'r cwestiynau allweddol o ran polisi, gwaith ymchwil a chlinigol y dylid rhoi sylw iddynt, gan mai'r rheini y mae problem yn effeithio arnynt yw'r rhai gorau i'w hamlygu a'i hamlinellu. Roedd grŵp llywio sy'n cynnwys amrywiaeth o bartneriaid allweddol, gan gynnwys y rheini sydd â phrofiad bywyd o awtistiaeth, yn rhan o bartneriaeth sy'n pennu blaenoriaethau:

**'Nododd y PSP [partneriaeth sy'n pennu blaenoriaethau] hwn flaenoriaethau allweddol ar gyfer gwaith ymchwil, polisi ac ymarfer, er mwyn hwyluso'r sylfaen dystiolaeth y mae mawr ei hangen yn y maes hwn.' (t. 6)**

Mae hyn yn awgrymu bod cynnwys arbenigwyr-trwy-brofiad wrth ddatblygu prosiect yn ychwanegu gwerth gwirioneddol o ran deall a rhannu'r meysydd blaenoriaeth hyn.

## Cyfleoedd ar gyfer grymuso

Roedd yr erthyglau a oedd yn gwerthuso cyfranogiad arbenigwyr-trwy-brofiad ym maes rhannu gwybodaeth yn rhagweithiol yn aml yn cynnwys gwerthusiadau o'r broses o safbwynt yr arbenigwyr-trwy-brofiad eu hunain. Soniodd llawer o unigolion am ymdeimlad cyffredinol o rymuso drwy gymryd rhan weithredol mewn prosiectau rhannu gwybodaeth yn rhagweithiol. Priodolwyd yr ymdeimlad hwn o rymuso i:

- y cyfle i ddylanwadu ar bolisi (Tremblay & Jayme, 2015)
- mwy o ymdeimlad o gynhwysiant a pherthyn (Reid et al., 2023)
- mwy o hunaneffeithiolrwydd (ASPE, 2022)
- cysylltedd cymunedol cryfach a mwy o gymorth cymdeithasol ac emosiynol (ASPE, 2022)
- gwell hunanhyder (Tremblay & Jayme, 2015)

Defnyddiodd un erthygl gan Campbell et al. (2021) ddull ymchwil gyfranogol yn y gymuned i ymgysylltu unigolion sydd â phrofiad bywyd o ddiabetes a digartrefedd mewn dau brosiect: mapio cysyniadau i ddewis ffocws ymchwil (casglu arbenigedd) a PhotoVoice[4] i archwilio mynediad at fwyd iach wrth fod yn ddigartref (casglu tystiolaeth). Trwy gydol y prosiectau, gwerthusodd yr holl aelodau eu profiadau. Rhannodd un arbenigwr-trwy-brofiad y myfyrdod canlynol ar ôl iddo gymryd rhan:

**'Roedd yn gwneud i mi deimlo bod fy stori'n bwysig. Roeddem yn rhan o ddewis y pynciau a oedd yn bwysig i ni a chawsom gyfle i rannu ein straeon gydag aelodau eraill y pwyllgor. Roedd canfod nad oeddwn ar fy mhen fy hun yn brofiad grymusol.' (t. 7)**

---

4 Mae PhotoVoice yn ddull ymchwil sy'n defnyddio ffotograffiaeth i gofnodi a chyfleu profiadau a phryderon pobl – Wang, C., & Burris, M. A. (1997). PhotoVoice: Concept, Methodology, and Use for Participatory Needs Assessment. *Health Education & Behavior*, 24(3), 369–387.

# Datblygu camau gweithredu ar y cyd

Mae'r llenyddiaeth yn awgrymu y gall cynnwys arbenigwyr-trwy-brofiad yn y broses ymchwil feithrin camau gweithredu ar y cyd, yn enwedig o fewn y gwaith ymchwil ei hun, gan wella cydweithio a gwella'r gallu i fynd i'r afael â materion cymdeithasol allweddol. Roedd llawer o erthyglau'n cynnwys 'tîm ymchwil' a oedd yn cynnwys ystod amrywiol o bartneriaid (e.e. Reid et al., 2023; Appleton et al., 2023; Fitzpatrick et al., 2023), fel eiriolwyr, cleifion, clinigwyr, ymchwilwyr, llunwyr polisïau, ac arloeswyr y system iechyd (McCloskey et al., 2021). Gall y cydweithio rhyngadrannol hwn ymysg amrywiaeth o bartneriaid allweddol hyrwyddo a chael ei gefnogi gan ddiwylliant o gyd-gynhyrchu.

## *Cyd-gynhyrchu*

Mae cyd-gynhyrchu yn fodel cydweithredol o ymchwil sy'n cynnwys partneriaid allweddol fel cleifion, y cyhoedd, rhoddwyr, clinigwyr, darparwyr gwasanaethau, a llunwyr polisïau. Y nod yw rhannu pŵer, gyda phartneriaid ac ymchwilwyr yn cydweithio i ddatblygu'r agenda, ac i ddylunio a gweithredu'r gwaith ymchwil, a dehongli, lledaenu a gweithredu'r canfyddiadau (Redman et al., 2021).

Roedd rhai erthyglau'n dadlau bod defnyddio dull aml-brofiad neu aml-safbwynt yn helpu i fynd i'r afael â chymhlethdodau materion yn fwy cydweithredol, gan feithrin cydgyfrifoldeb (Flynn, 2023). Gall cynnwys arbenigwyr-trwy-brofiad helpu i ddatblygu partneriaethau cymunedol-academaidd mwy deinamig ac addasol, gyda'r potensial i feithrin cyd-ymddiriedaeth, parch ac undod. Dangosir un enghraifft o'r dull cydweithredol hwn o rannu gwybodaeth yn rhagweithiol yn yr Alcohol Knowledge Exchange Project (Bailey et al., 2023, t.1), Vancouver, ble:

**'daeth cyfarfodydd rhanddeiliaid rheolaidd â chymheiriaid a oedd yn arfer defnyddio alcohol (yfadwy a heb fod yn yfadwy), darparwyr lloches a gwasanaethau lleihau niwed, gweithwyr iechyd cyhoeddus proffesiynol, clinigwyr, a llunwyr polisïau ynghyd, i wella capasiti ar lefel system er mwyn lleihau niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol.'**

Dangosodd y prosiect hwn sut y gall cymuned ymarfer, sy'n cynnwys nid yn unig y rheini sydd â phrofiad bywyd o ddefnyddio alcohol, ond hefyd partneriaid perthnasol eraill (fel ymchwilwyr a broceriaid gwybodaeth), ddod â safbwyntiau amrywiol at ei gilydd a meithrin cyfrifoldeb ar y cyd ar gyfer cychwyn a gyrru newid i systemau.

## Mwy o effaith ar bolisi ac ymarfer ac, yn y pen draw, ar gymunedau

Awgrymodd llawer o erthyglau fod ymgysylltu ag arbenigwyr-trwy-brofiad ym maes rhannu gwybodaeth yn rhagweithiol yn gwella perthnasedd ac effaith ymarferol y casgliadau a dynnwyd o waith ymchwil. Awgrymodd Fitzpatrick et al. (2023, t. 1739) bod cynnwys arbenigwyr-trwy-brofiad yn arwain at 'drosglwyddo tystiolaeth yn fwy effeithiol i ymarfer', gan dynnu sylw at y posibilrwydd o ledaenu a throsi ymchwil yn ehangach ac yn fwy effeithiol (Beames et al., 2021). Mae modd cyflawni hyn drwy gyd-greu trosglwyddiadau gwybodaeth rhwng amrywiaeth o bartneriaid allweddol. Trwy ffocysu ar gysylltiadau cymdeithasol gwaith ymchwil, mae cydnabod pŵer a gwrthdaro â phŵer yn dod yn ganolog, gyda buddiannau ac anghenion y rheini sy'n destun y gwaith ymchwil yn cael eu blaenoriaethu uwchlaw rhai'r ymchwilwyr (Fitzpatrick et al., 2023). Gall y ffocws hwn ar anghenion a blaenoriaethau'r rheini sy'n destun gwaith ymchwil arwain at allbynnau mwy perthnasol, a allai gynyddu'r effaith ymarferol. Mae hyn yn arbennig o bwysig i froceriaid gwybodaeth, gan fod trosglwyddo tystiolaeth yn agwedd graidd ar eu gwaith.

Roedd y rhesymeg hon dros gynnwys arbenigwyr-trwy-brofiad yn arbennig o berthnasol mewn erthyglau sy'n canolbwyntio ar iechyd, lle mae ymrwymiad cryf yn aml i wella profiad defnyddwyr gwasanaeth. Pwysleisiodd yr erthyglau hyn sut mae cynnwys defnyddiwr cynnyrch neu wasanaeth mewn prosiectau rhannu gwybodaeth yn rhagweithiol yn debygol o wella'r cynnyrch neu'r gwasanaeth hwnnw ar gyfer y 'defnyddiwr' (Willis et al., 2024).

CY2

## Dulliau o gynnwys arbenigwyr-trwy-brofiad

Un o nodau'r adolygiad hwn oedd casglu gwybodaeth am sut mae arbenigwyr-trwy-brofiad yn cyfrannu at brosesau rhannu gwybodaeth yn rhagweithiol. Gyda'i gilydd, datgelodd yr erthyglau mai cynnwys arbenigwyr-trwy-brofiad mor gynnar â phosibl mewn prosiect, neu o leiaf ystyried hyn yn gynnar, yn aml yw'r dull mwyaf effeithiol (e.e. Hughes et al., 2024; Thom et al., 2022; Machin et al., 2023). Mae ymgysylltu ag arbenigwyr-trwy-brofiad yn ystod y camau cynllunio yn darparu man cychwyn cliriach ac yn helpu i lywio'r gwaith o bennu materion a chwmpasu, gan sicrhau bod y ffocws yn berthnasol ac yn ystyrlon i'r rheini yr effeithir arnynt. Gall y dull cyd-gynhyrchiol hwn helpu i osgoi cyfranogiad tocynistaidd, lle ymgysylltir ag arbenigwyr-trwy-brofiad ar gyfer agwedd fach ar y prosiect heb fewnbwn sylweddol i'r dyluniad a'r strategaeth, gan arwain o bosibl at ymgysylltu perfformiadol yn hytrach nag ymgysylltu sylweddol.

Gall dull cyd-gynhyrchiol o rannu gwybodaeth yn rhagweithiol (a phrosiectau ymchwil sy'n cynnwys elfennau o rannu gwybodaeth yn rhagweithiol) gynnwys amrywiaeth eang o fodelau, dulliau a thechnegau. Mae'r rheini sy'n cael eu defnyddio yn yr erthyglau a gafodd eu hadolygu yn cael eu hegluro'n fanylach isod:

### Dulliau cyd-gynhyrchiol

Mae dulliau cyd-gynhyrchiol yn cynnwys arbenigwyr-trwy-brofiad o gamau cynllunio cychwynnol prosiect, hyd at ledaenu a gwerthuso. Mae pŵer a pherchnogaeth gwaith ymchwil a gynhyrchir ar y cyd yn cael eu rhannu rhwng ymchwilwyr a phartneriaid allweddol. Mae cyd-ddylunio a chyd-greu yn amrywiadau ar y dull hwn, lle gall arbenigwyr-trwy-brofiad gyfrannau at gynllunio, datblygu nodau, a chaffael cyllid (e.e., Hawke et al., 2024), yn ogystal â chyfuno tystiolaeth (e.e. Walker et al., 2021), ysgrifennu cyhoeddiadau (e.e., Hughes et al., 2024), a chynllunio neu gyfrannu at ddigwyddiadau rhannu gwybodaeth yn rhagweithiol, fel cynadleddau (e.e., Aguzzoli et al., 2024).

Yn y rhan fwyaf o astudiaethau, daeth arbenigwyr-trwy-brofiad ynghyd i gymryd rhan fel grŵp, yn hytrach nag fel unigolion. Weithiau, fe wnaethant ffurfio gweithgorau, a oedd yn cynnwys cyfuniad o arbenigwyr-trwy-brofiad, ymchwilwyr, hwyluswyr, a phartneriaid allweddol eraill (e.e. Appleton et al., 2023; McCloskey et al., 2021; Santaella et al., 2023). Weithiau, fe gyfeiriwyd at y grŵp hwn fel y 'tîm prosiect' (e.e. Reid et al., 2023). Yn aml, hwyluswyd y dulliau cyd-gynhyrchu hyn drwy weithio'n agos gyda grwpiau cynghori neu baneli oedd eisoes yn bodoli (e.e. LEAP, 2023) neu drwy gynnal rhyw fath o waith ymchwil cyfranogol. Mae gwaith ymchwil cyfranogol, fel dull, yn cynnwys gweithio'n agos gydag aelodau'r gymuned, partneriaid allweddol, a'r rheini sydd â phrofiad bywyd o fater, i gynnal gwaith ymchwil ac i archwilio i gyfleoedd ar gyfer newid. Trafodir y dulliau cyfranogol hyn yn fwy manwl yn awr.

## Dulliau cyfranogol

Mewn dull cyd-gynhyrchiol o rannu gwybodaeth yn rhagweithiol, defnyddir dulliau cyfranogol yn aml, lle mae partneriaid allweddol yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ymchwil amrywiol, gan ganiatáu iddynt fod yn bartneriaid cyfartal yn y broses ymchwil a chyfnewid gwybodaeth. Defnyddiwyd amrywiaeth o ddulliau cyfranogol yn yr erthyglau a adolygwyd, gyda'r nod o sefydlu cydbwysedd pŵer rhwng arbenigwyr-trwy-brofiad, gweithwyr proffesiynol, ymchwilwyr a broceriaid gwybodaeth. Er mwyn sefydlu blaenoriaethau ymchwil, disgrifiwyd Partneriaethau Gosod Blaenoriaethau (PSP) mewn dwy erthygl. Ymchwil gweithredu cyfranogol neu ymchwil gyfranogol yn y gymuned oedd y dulliau a nodwyd fwyaf ar gyfer cynnwys arbenigwyr-trwy-brofiad mewn prosiectau rhannu gwybodaeth yn rhagweithiol, gydag amrywiadau o'r termau hyn, gan gynnwys 'dull cyfranogol', 'proses rhanddeiliaid cyfranogol', 'dulliau cyfranogol', a 'dylunio cyfranogol'. Roedd dulliau eraill yn cynnwys Ymarfer Rhyng-sectorol sy'n Ffocysu ar Degwch (EquIP), gwneud ar y cyd, a Grwpiau Gweithredu Cydweithredol (CIG). Mae'r tabl isod yn tynnu sylw at elfennau allweddol pob un o'r dulliau cyfranogol hyn:

## Tabl 3: Dulliau cyfranogol a ddefnyddiwyd mewn erthyglau a adolygwyd

| Dull gweithredu | Diffiniad | Cyfeirnodau erthygl | Manteision | Anfanteision |
|---|---|---|---|---|
| **Partneriaethau gosod blaenoriaethau** | Yn aml yn cynnwys pwyllgor llywio o bartneriaid perthnasol i nodi blaenoriaethau ymchwil ar y cyd. Yn y sector iechyd, gall hyn gynnwys cleifion, gofalwyr a chlinigwyr. | Freebairn et al., 2022; Sinclair et al., 2023 | Yn sicrhau bod gwaith ymchwil yn berthnasol ac yn alinio ag anghenion y gymuned. | Mae'n cymryd llawer o amser i ddod i gonsensws. |
| | | | Mae'n hyrwyddo cydweithio rhwng partneriaid allweddol. | Heriau o ran cydbwyso dynameg pŵer ymysg partneriaid. |
| **Ymchwil gweithredu cyfranogol** | Dull ymchwil sy'n pwysleisio cyfranogiad a gweithrediad y cymunedau y mae'r ymchwil yn effeithio arnynt. Mae'n golygu bod ymchwilwyr a chyfranogwyr yn cydweithio i ddeall a gwella sefyllfa broblemus. | Lazarus, 2018; Freebairn et al., 2022; Tremblay & Jayme, 2015 | Mae'n grymuso'r rhai sy'n cymryd rhan ac yn eu hannog i gyfranogi. | Mae angen amser ac ymrwymiad sylweddol gan gyfranogwyr. |
| | | | Mae'n cynhyrchu canlyniadau y gellir eu gweithredu sy'n berthnasol i'r cyd-destun. | Posibilrwydd o ganlyniadau rhagfarnllyd os nad yw cyfranogwyr yn cynrychioli'r gymuned ehangach. |
| **Ymchwil gyfranogol yn y gymuned** | Yn cynnwys aelodau'r gymuned, ymchwilwyr a phartneriaid allweddol eraill yn y broses ymchwil, gan gydnabod cryfderau unigryw pob un. Y nod yw cyfuno gwybodaeth a chamau gweithredu i greu newid cymdeithasol cadarnhaol a pharhaol. | Campbell et al., 2021; Reid et al., 2023; Cholette et al., 2023; Willis et al., 2024, Powell et al., 2013; McEwan et al., 2022 | Mae partneriaethau teg yn hyrwyddo cyd-barch a chydberchnogaeth. | Cymhlethdodau o ran rheoli disgwyliadau amrywiol partneriaid. |
| | | | Mae'n arwain at ddatrysiadau cynaliadwy a chanlyniadau sy'n cael eu gyrru gan y gymuned. | Anawsterau o ran cynnal ymgysylltiad hirdymor â'r gymuned. |
| **Trosi gwybodaeth sy'n ffocysu ar degwch** | Methodoleg newydd sy'n uno egwyddorion ymchwil gyfranogol â chynhwysiant strategol profiadau bywyd. Mae'r dull hwn yn helpu sectorau gwahanol i ffocysu ar y ffactorau cyd-destunol sy'n cyfrannu at faterion penodol. | Phipps et al., 2021 | Ymgorffori lleisiau amrywiol yn y broses ymchwil. | Mae angen cynllunio'n ofalus i sicrhau cynrychiolaeth deg. |
| | | | Mae'n helpu i roi canfyddiadau ymchwil mewn cyd-destun cynhwysol. | Gallu cyfyngedig i dyfu yn unol â'r anghenion oherwydd dulliau gweithredu teilwredig sy'n benodol i'r cyd-destun. |
| **Gwneud ar y cyd** | Dull penodol o rannu gwybodaeth, rhannu gwybodaeth yn rhagweithiol, a rhoi gwybodaeth ar waith, sydd â chysylltiad agos â chyd-ddylunio. | Langley et al., 2018 | Mae'n annog creadigrwydd ac yn caniatáu ar gyfer dulliau amrywiol o rannu gwybodaeth. | Mae angen adnoddau a sgiliau ym maes hwyluso a dylunio. |
| | | | Mae'n creu teimlad o berchnogaeth ar y cyd a chysylltiad â chanlyniadau. | Gall fod yn heriol i'w graddio y tu hwnt i fentrau lleol neu gymunedol. |
| **Grwpiau Gweithredu Cydweithredol** | Grŵp o bartneriaid amrywiol sy'n cyfarfod i drafod ymchwil a chyfnewid gwybodaeth, gyda phwyslais ar ddysgu rhyngweithiol a chydweithredol gan gymheiriaid/cyd-ddysgu. | Cloke et al., 2023 | Yn hwyluso cyfnewid gwybodaeth ac adborth parhaus. | Dibyniaeth uchel ar gyfranogiad gweithredol. |
| | | | Mae'n gwella dysgu ymysg partneriaid sydd ag arbenigedd amrywiol. | Gall heriau logistaidd, fel trefnu cyfarfodydd rheolaidd, lesteirio parhad. |

## *Gweithgareddau ymchwil*

Drwy'r dulliau cyfranogol hyn, gall arbenigwyr-trwy-brofiad gyd-hwyluso, datblygu neu gymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau. Yn aml, roedd arbenigwyr-trwy-brofiad yn cael eu dwyn ynghyd â phartneriaid allweddol eraill ac aelodau o'r tîm ymchwil fel gweithgorau, a oedd yn cwrdd drwy gydol cylch oes prosiect i drafod a gwneud penderfyniadau ar bob cam o'r broses ymchwil (gweler Astudiaeth Achos 1 isod). Er enghraifft, roedd mapio cysyniadau, dull gweledol sy'n cyflwyno cysyniadau fel siapiau, gyda saethau yn dangos perthnasoedd, yn cael ei ddefnyddio gan bobl sy'n profi digartrefedd a diabetes i ddatblygu nodau ymchwil a gweithredu (Campbell et al., 2021). Roedd gweithgareddau eraill yn cynnwys celf, gweithgareddau theatr, a gweithdai creadigol (e.e. Grindell et al., 2022; MacGregor et al., 2022; Phipps et al., 2021). Defnyddiwyd y gweithgareddau creadigol hyn i gyd-greu neu gyd-ddylunio agweddau o'r gwaith ymchwil, gyda rhai prosiectau'n ffocysu ar rannu gwybodaeth yn rhagweithiol. Mewn prosiectau sy'n ymwneud â chyfuno tystiolaeth, roedd cyfranogiad arbenigwyr-trwy-brofiad yn cynnwys datblygu strategaethau chwilio, echdynnu data, dadansoddi ac ysgrifennu (Walker et al., 2021). Amlygodd yr erthyglau sut y gellir ail-ddychmygu gweithgareddau ymchwil traddodiadol i fod yn fwy cynhwysol ar gyfer arbenigwyr-trwy-brofiad. Er enghraifft, mewn prosiect oedd yn cysylltu llunio polisïau â phrofiadau bywyd merched yn Uganda, fe wnaeth y tîm ymchwil:

**'archwilio sut y gall celfyddydau cymhwysol a arweinir gan ymchwil ddatblygu methodolegau cyfranogol... ymgysylltu'n ystyrlon â merched o fewn y broses ymchwil, a phrosesau cyfnewid gwybodaeth sy'n cysylltu llunio polisïau â'u profiadau bywyd'**

(McQuaid, et al., 2020, t. 1)

## *Allbynnau rhannu gwybodaeth yn rhagweithiol*

Gall arbenigwyr-trwy-brofiad helpu i lunio strategaethau lledaenu a chyfathrebu fel rhan o ymdrechion rhannu gwybodaeth yn rhagweithiol. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys cyd-awduro papurau (Hawke et al., 2024), ychwanegu sylwebaethau personol at gasgliadau mewn papurau cyhoeddedig (Appleton et al., 2023), datblygu taflenni ffeithiau cyhoeddus i rannu canfyddiadau â myfyrwyr mewn ysgolion (Lazarus, 2018), a chreu offer delweddu, fel dangosfyrddau gwe rhyngweithiol i sgorio opsiynau prydau bwyd o dair meithrinfa (Cámara-Menoyo et al., 2024). Roedd un tîm prosiect, a oedd yn cynnwys arbenigwyr-trwy-brofiad, wedi cyd-ddatblygu canllawiau polisi hawdd eu deall ar gynnal gwaith ymchwil i HIV sy'n foesegol ddiogel (Cholette et al., 2023), ac un arall wedi datblygu cynnig cychwynnol ar gyfer pecyn polisi ar gyfer datgarboneiddio ynni cartref (Willis et al., 2024).

Yn ogystal â helpu i lunio allbynnau cyhoeddedig, gall arbenigwyr-trwy-brofiad hefyd gyfrannu at ddigwyddiadau, cynadleddau a symposia, sy'n elfennau allweddol o rannu gwybodaeth yn rhagweithiol (gweler Astudiaeth Achos 2). Gall hyn gynnwys cynllunio cyflwyniadau neu gyflwyno canfyddiadau ar lafar. Roedd strategaethau cyfathrebu yn cynnwys cyflwyno straeon a phrosiectau am fyw gyda dementia (Aguzzoli et al., 2024), a chyflwyno sesiynau addysgol ar gyfer rhanddeiliaid ynghylch clefyd cronig yr arennau (Hughes et al., 2024).

Fel y soniwyd yn flaenorol, er bod yr erthyglau yn yr astudiaeth hon yn ymwneud ag o leiaf un agwedd ar rannu gwybodaeth yn rhagweithiol, nid dyma oedd prif ffocws y prosiect yn aml. Un o brif elfennau'r gwaith sy'n cael ei wneud gan Ganolfannau What Works yw rhannu gwybodaeth yn rhagweithiol. Isod, ceir dwy astudiaeth achos sy'n pwysleisio cyfraniad arbenigwyr-trwy-brofiad ym maes rhannu gwybodaeth yn rhagweithiol.



# Cynnwys arbenigwyr-trwy-brofiad yn y broses o rannu gwybodaeth: Astudiaeth Achos 1

Roedd **Bridging the Chasm between Pregnancy and Health across the Life Course** (McCloskey et al., 2021) yn brosiect dwy flynedd, a lansiwyd yn 2018 yng Ngogledd America. Daeth y prosiect â chleifion, eiriolwyr, darparwyr, ymchwilwyr, llunwyr polisïau ac arloeswyr systemau at ei gilydd gyda'r nod cyffredinol o wneud y canlynol: 1) ffurfio rhwydwaith o aelodau amrywiol i gyd-greu Agenda for Research and Action to Bridge the Chasm, gan ddod â phob math o arbenigedd ynghyd, a 2) gosod y llwyfan ar gyfer y newidiadau polisi, ymchwil ac ymarfer sydd eu hangen i greu system a phrofiad gofal iechyd cydlynol, cyfannol a theg ar gyfer pob unigolyn sy'n geni drwy gydol eu bywydau.

Roedd Cam 1 yn cynnwys recriwtio Cyngor Arwain ar Ymgysylltu â Rhanddeiliaid (SELC), a oedd yn cynnwys aelodau o sefydliadau cymunedol ac eiriolaeth, a phartneriaid academaidd. Dechreuodd y grŵp hwn drwy gynnal adolygiad systematig o'r llenyddiaeth. Yng Ngham 2, ymgysylltodd cynhadledd 2 ddiwrnod gyda rhwydwaith amrywiol o bartneriaid (eiriolwyr, cleifion, clinigwyr, ymchwilwyr, arbenigwyr polisi, ac arloeswyr gofal iechyd) i gyd-greu'r amlinelliad ar gyfer y *National Agenda for Research and Action*. Gwahoddodd pob aelod sefydliadol o'r SELC etholwyr i sicrhau cyfranogiad cyfartal ar draws yr holl grwpiau partner. Yng Ngham 3 (Blwyddyn 2), ffurfiodd 70 o aelodau (cymysgedd o fynychwyr y gynhadledd a recriwtiaid newydd) chwe gweithgor. Cynhaliodd pob gweithgor bum galwad gynadledda dros bum mis, gan wthio'r agenda drwy broses gonsensws i greu: 1) datganiad o broblem, 2) canfyddiadau wedi'u hintegreiddio yn seiliedig ar ddadansoddiad o lenyddiaeth lwyd, llenyddiaeth a adolygwyd gan gymheiriaid, a chyfweliadau gyda hysbyswyr allweddol, a 3) rhestr o flaenoriaethau strategol ar gyfer yr *Agenda for Action and Research to Bridge the Chasm*.





# Cynnwys arbenigwyr-trwy-brofiad yn y broses o rannu gwybodaeth yn rhagweithiol: Astudiaeth Achos 2

Yn 2024, cyhoeddodd Hawke et al. Discussing the gaps in the science and practice of lived experience engagement in mental health and substance use research: results of knowledge mobilization activities. Yn seiliedig ar adolygiad cwmpasu a gynhaliwyd gyda phobl â phrofiad bywyd (PWLE) o iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau, cynhaliwyd dau ddigwyddiad rhannu gwybodaeth yn rhagweithiol yn Toronto yn 2023 er mwyn trosi'r canfyddiadau i ddefnyddwyr a chasglu adborth. Daeth y digwyddiadau hyn â 55 o bobl ynghyd, gan gynnwys PWLE, staff ymchwil, aelodau teulu, gwyddonwyr arweiniol, hyfforddeion ymchwil, ac unigolion â nifer o safbwyntiau. Cafodd y digwyddiadau eu datblygu gyda chymorth gan Grŵp Cynghori ar Brofiadau Bywyd, a chawsant eu hyrwyddo drwy gysylltiadau'r tîm, cylchlythyrau i ddefnyddwyr gwybodaeth, a negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol.

Cynhaliwyd y digwyddiad cyntaf (22 o bobl) wyneb yn wyneb yn y Centre for Addiction and Mental Health (CAMH), ac roedd yr ail ddigwyddiad (33 o bobl) yn un rhithiol. Ar ôl cyflwyniad byr o'r adolygiad cwmpasu, cynhaliwyd trafodaethau grŵp mawr a sesiynau grwpiau llai. Roedd yr hwyluswyr yn cynnwys gwyddonydd, un person â phrofiad bywyd, a chydlynwyr ymgysylltu â chleifion a theuluoedd. Roedd y trafodaethau'n canolbwyntio ar safbwyntiau'r rheini a oedd yn bresennol ar y canfyddiadau, a'u safbwyntiau ar y meysydd mwyaf taer o ymgysylltu â phobl â phrofiad bywyd. Ar ôl y digwyddiadau, roedd yr adborth yn cael ei integreiddio'n draethiadol o nodiadau cyfranogwyr a hwyluswyr ac yn cael ei adrodd yn ôl i Grŵp Cynghori ar Brofiadau Bywyd i gael adborth ac i gynnal trafodaeth.

Wrth werthuso eu profiadau, tynnodd arbenigwyr-trwy-brofiad sylw at yr angen i wella cyfathrebu, perthnasoedd, cydberthynasau, a dynameg pŵer. Roeddent yn pwysleisio pwysigrwydd esbonio cysyniadau ymchwil yn glir, gwrando'n weithredol, gwerthfawrogi safbwyntiau pobl â phrofiad bywyd yn ddilys, digolledu pobl â phrofiad bywyd ar gyfer eu gwaith, a meithrin ymgysylltiad cyson a pharhaus. Roeddent hefyd yn pwysleisio'r angen i gynnwys unigolion o amrywiaeth eang o gefndiroedd hiliol, diwylliannol, rhywedd, ac iechyd meddwl / defnydd sylweddau.



## Recriwtio

Un agwedd bwysig ar sut i gynnwys arbenigwyr-trwy-brofiad wrth rannu gwybodaeth yn rhagweithiol yw deall y broses recriwtio. Nodwyd dau brif ddull o recriwtio arbenigwyr-trwy-brofiad yn y llenyddiaeth: a) gweithio gyda grwpiau cynghori ar brofiadau bywyd neu sefydliadau yn y gymuned sydd eisoes yn bodoli, a b) recriwtio unigolion o wahanol ffynonellau i ffurfio grŵp newydd o arbenigwyr-trwy-brofiad, yn benodol ar gyfer prosiect penodol. Ar gyfer prosiectau sy'n cynnwys grwpiau cynghori sydd eisoes yn bodoli, mae rhai ymchwilwyr yn cydweithio â sefydliadau porthorion, fel LEAP (Human Trafficking, 2023). Mae gan eraill eu rhwydweithiau sefydledig eu hunain, er enghraifft, y Mental Health Policy Research Unit (Appleton et al., 2023) ac Eastside Illicit Drinkers Group (Bailey et al., 2023). Ar gyfer prosiectau sy'n recriwtio unigolion i ffurfio grŵp newydd, ar y cyfan ychydig o fanylion sydd am y broses recriwtio. Mae erthyglau'n tueddu i grynhoi eu strategaeth recriwtio gyda datganiadau fel:

**'Crëwyd gweithgor rhanddeiliaid ar gyfer yr adolygiad'**

(Appleton et al., 2023, t. 3)

**'Mae gweithgorau amlddisgyblaethol wedi cael eu creu'**

(Santaella et al., 2023, t. 7216)

Pan oedd grwpiau cynghori ar brofiadau bywyd neu sefydliadau yn y gymuned yn cymryd rhan, roedd manylion y broses recriwtio yn arbennig o brin. Roedd prosiectau nad oeddent yn cynnwys grwpiau a oedd eisoes yn bodoli yn aml yn rhoi mwy o fanylion am y broses recriwtio. Roedd y dulliau a ddefnyddiwyd yn cynnwys dosbarthu taflenni gwybodaeth mewn llochesi i bobl ddigartref (Campbell et al., 2021), cartrefi gofal, llyfrgelloedd, canolfannau cymunedol, a chanolfannau iechyd, yn ogystal â hysbysebu ar radio lleol (Reid et al., 2023).

**'Cafodd y prosiect ei hysbysebu'n eang, gan gynnwys drwy wefan y prosiect a'r cyfryngau cymdeithasol, a chafodd gwybodaeth berthnasol ei chynnal gan y Gymdeithas ar gyfer Astudio Caethiwed'**

(Sinclair et al., 2023, t. 2)

Mae bwlch clir yn y dystiolaeth o ran manylion recriwtio. Mae angen cynnal mwy o waith ymchwil i dynnu sylw at yr heriau a'r cyfleoedd ar gyfer gwella'r broses recriwtio, gan y gallai'r goblygiadau cost sylweddol ar gyfer cynnwys arbenigwyr-trwy-brofiad mewn prosiectau, os nad ydynt yn cael eu cydnabod mewn prosesau cyllido, fod yn rhwystr i gyfranogiad ystyrlon.

## Ble cynhaliwyd y digwyddiadau ymgysylltu

Nid oedd llawer o wybodaeth yn y rhan fwyaf o'r erthyglau ynghylch ble cynhaliwyd y digwyddiadau ymgysylltu ag arbenigwyr-trwy-brofiad. Yn yr erthyglau a ddarparodd fanylion, roedd enghreifftiau yn cynnwys gofod cymunedol mewn parc lleol ar gyfer pobl â phrofiad bywyd o ddigartrefedd a diabetes (Campbell et al., 2021). Cafodd y lleoliad hwn ei ddewis oherwydd ei fod yn gyfarwydd i bawb a oedd yn cymryd rhan ac o fewn pellter cerdded. Roedd enghreifftiau eraill yn cynnwys cyfarfodydd a gynhaliwyd ar-lein, mewn adeiladau prifysgol (Cloke et al., 2023), neu mewn cartrefi gofal lle'r oedd y cyfranogwyr yn byw (Reid et al., 2023). Roedd rhywfaint o waith gydag arbenigwyr-trwy-brofiad hefyd yn cael ei wneud yn ystod teithiau cerdded wedi'u trefnu (Aguzzoli et al., 2024) ar gyfer pobl â phrofiad bywyd o ddementia, neu yn ystod encilion hirach, pedwar diwrnod o hyd (Phipps et al., 2021) mewn llety gwledig, ymhell o gyfrifoldebau bob dydd, gyda phobl â phrofiad bywyd o annigonolrwydd tai. Er bod y lleoliadau'n amrywio, roedd yr erthyglau'n tynnu sylw at bwysigrwydd sicrhau bod lleoliadau'n hygyrch a bod yr arbenigwyr-trwy-brofiad yn teimlo'n gyfforddus yn gorfforol ac yn seicolegol yn y mannau hynny.

## Hyd ac amlder y cyfranogiad

Roedd hyd ac amlder cyfranogiad arbenigwyr-trwy-brofiad ym maes rhannu gwybodaeth yn rhagweithiol yn amrywio'n fawr. Roedd timau prosiect, a oedd yn cynnwys arbenigwyr-trwy-brofiad, yn aml yn cwrdd nifer o weithiau, er enghraifft, mewn cyfarfodydd neu weithdai bob yn ail wythnos dros gyfnod o chwe mis ar gyfartaledd (Campbell et al., 2021; McQuaid et al., 2021), cyfres o wyth gweithdy undydd dros gyfnod o 12 mis (Cloke et al., 2023), neu bedwar gweithdy diwrnod llawn dros 18 mis (Hugh-Jones, 2024). Roedd yr amseroedd a'r amlderau'n wahanol ar gyfer pob prosiect, ac ni ddaeth unrhyw batrymau allweddol i'r amlwg, ar wahân i'r nodwedd gyffredin bod y cyfarfodydd yn cael eu cynnal ar adegau gwahanol yn ystod y prosiect. Fe wnaeth y cyfarfodydd rheolaidd hyn hwyluso dull cyd-gynhyrchiol. Pwynt allweddol a bwysleisiwyd ar draws y llenyddiaeth oedd pwysigrwydd caniatáu digon o amser i sefydlu perthynas gydag arbenigwyr-trwy-brofiad cyn i'r gwaith ymchwil gychwyn. Pan roedd cyfyngiadau amser ar waith, nid oedd digon o amser i adeiladu'r perthnasoedd hyn, gan arwain yn aml at gyfranogiad tocynistaidd (Walker et al., 2021).

## *Cydnabyddiaeth ariannol*

Mae cydnabyddiaeth ariannol yn elfen bwysig arall o sut i gynnwys arbenigwyr-trwy-brofiad, a gall broceriaid gwybodaeth geisio deall y broses hon. Tynnwyd sylw at bwysigrwydd cydnabyddiaeth ariannol ar draws y llenyddiaeth, gydag un erthygl yn nodi:

**‘Rhaid cynnig cydnabyddiaeth ariannol bob tro. Nid ymarfer untro yw gweithio ar y cyd, ond yn hytrach mae’n ddiwylliant’**

(LEAP, 2023)

Fodd bynnag, dim ond mewn lleiafrif o astudiaethau y soniwyd am fanylion polisïau neu brosesau cydnabyddiaeth ariannol (e.e. Campbell et al., 2021; Bailey et al., 2023; Thom et al., 2022; Walker et al., 2021). Roedd y gydnabyddiaeth ariannol yn yr erthyglau hyn yn amrywio o ddarparu talebau bwyd neu gardiau rhodd i siop goffi, i gyflog o $10 neu honorariwm o $20 am bob cyfarfod (Campbell et al., 2021). Awgrymodd un erthygl y dylai ad-daliadau i arbenigwyr-trwy-brofiad fod yn gymesur â’r cyfraddau a gynigir i arbenigwyr eraill, fel y rheini sy’n ymgysylltu ar sail eu harbenigedd fel ymarferwyr neu ymchwilwyr (ASPE, 2022).

Yn ogystal â’r ad-daliad ariannol drwy daliadau uniongyrchol fesul awr, cyflogau, neu honoraria, mae rhai sefydliadau hefyd yn ystyried darparu buddion ac adnoddau eraill i hwyluso ymgysylltiad gan arbenigwyr-trwy-brofiad. Mae’r rhain yn cynnwys cymhellion fel gofal plant, gwasanaethau iechyd meddwl, cyllid ar gyfer teithio, cymryd rhan mewn cynadleddau, ac addysg barhaus (ASPE, 2022). Fodd bynnag, ni ddatgelwyd y ffynonellau cyllid a ddefnyddir gan sefydliadau i ad-dalu arbenigwyr-trwy-brofiad yn yr erthyglau a adolygwyd.

CY2

# Heriau a chyfleoedd

Tynnodd y llenyddiaeth sylw at nifer o heriau neu rwystrau posibl o ran cynnwys arbenigwyr-trwy-brofiad mewn prosiectau rhannu gwybodaeth yn rhagweithiol, yn ogystal ag awgrymu galluogwyr neu gyfleoedd i wella. Mae'r maes hwn o lenyddiaeth yn darparu mewnwelediad i froceriaid gwybodaeth ar arferion gorau, ac arweiniad ar sut i lunio eu gwaith eu hunain gydag arbenigwyr-trwy-brofiad. Mae'r heriau a'r cyfleoedd i wella hyn yn cael eu harchwilio isod.

## Heriau

Trafododd pymtheg o erthyglau (35%) yr heriau posibl o gynnwys arbenigwyr-trwy-brofiad mewn prosiectau. Mae'r heriau hyn yn disgyn i ddwy thema gyffredinol: a) heriau yng ngham cynllunio prosiect, a b) heriau o ran meithrin perthnasoedd gwaith effeithiol. Daeth sawl is-thema i'r amlwg yn y ddwy brif thema, fel y nodir yn y tabl isod:

**Tabl 4: Heriau yn ystod cam cynllunio prosiect**

| Is-thema | Esboniad / Enghraifft | Cyfeirnod |
|---|---|---|
| Cyfyngiadau amser | Gall prosiectau sy'n cynnwys arbenigwyr-trwy-brofiad gymryd mwy o amser na dulliau mwy traddodiadol. Yn aml, nid oes digon o amser yn cael ei neilltuo i gynnwys arbenigwyr-trwy-brofiad yn effeithiol mewn prosiect. | ASPE, (2022), Walker et al. (2021), Fitzpatrick et al., (2023), Machin et al., (2023) |
| Cyfyngiadau cyllido | Gall fod yn anodd sicrhau cyllid ar gyfer prosiectau cyd-gynhyrchu, gan fod y cais am gyllid yn gofyn am gynllunio methodoleg, sydd fel arfer yn digwydd ar ôl i arbenigwyr-trwy-brofiad gael eu recriwtio. | Fitzpatrick, et al., (2023), Machin etal., (2023) |
| Cymeradwyaeth foesegol | Mae ansicrwydd ynghylch a fydd cynigion sy'n cael eu datblygu drwy gyd-ddylunio yn cael eu rhoi ar waith, yn ogystal â phryderon y gallai cynnwys arbenigwyr-trwy-brofiad gael effaith negyddol ar fanylrwydd gwyddonol. | Campbell et al., (2021), Hawke et al., (2024) |
| Recriwtio | Efallai nad oes gan froceriaid gwybodaeth ac ymchwilwyr wybodaeth am ddulliau ar gyfer recriwtio arbenigwyr-trwy-brofiad. | Campbell et al., (2021), Willis et al., (2024) |
| Sgiliau cyfranogi annigonol | Efallai na fydd gan froceriaid gwybodaeth ac ymchwilwyr brofiad na sgiliau digonol mewn dulliau cyfranogol sy'n cynnwys arbenigwyr-trwy-brofiad. | Hawke et al., (2024), Walker et al., (2021) |

**Tabl 5: Heriau wrth feithrin perthnasoedd gwaith effeithiol**

| Is-thema | Esboniad / Enghraifft | Cyfeirnod |
|---|---|---|
| Anghydbwysedd pŵer | Mae gwrthdaro posibl yn deillio o anghydbwysedd pŵer rhwng academyddion neu froceriaid gwybodaeth ac arbenigwyr-trwy-brofiad. Roedd rhai timau ymchwil yn cydnabod bod hyn yn anodd ei reoli. | Thom et al., (2022), Grindell et al., (2022), Cloke et al., (2023), Machin et al., (2023) |
| Rheoli gwahanol safbwyntiau | Mae ansicrwydd ynghylch sut i reoli neu ddatrys gwahaniaethau barn neu safbwyntiau, er enghraifft, rhwng aelodau o dîm neu weithgor prosiect. | Fitzpatrick et al., (2023), Walker et al., (2021) |
| Rhwystrau ieithyddol | Mae rhwystrau ieithyddol yn aml yn bodoli rhwng arbenigwyr-trwy-brofiad ac aelodau eraill y tîm prosiect, er enghraifft pan fydd Saesneg yn ail neu'n drydedd iaith, neu pan fydd jargon academaidd yn cael ei gamddeall. | Camara-Menoyo et al., (2024), Fitzpatrick et al., (2023) |
| Rheoli disgwyliadau a phryderon | Gall heriau godi pan nad yw rôl arbenigwyr-trwy-brofiad yn glir, neu pan nad oes digon o wybodaeth yn cael ei darparu ynglŷn â'u cyfranogiad. | Hugh-Jones, et al., (2024), Walker et al., (2021) |
| Diffyg amser i feithrin perthnasoedd sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth | Fel arfer, nid oes digon o amser i feithrin y perthnasoedd sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth sy'n angenrheidiol er mwyn rhannu pŵer mewn cyd-greu effeithiol, gan arwain yn aml at ddull gweithredu tocynistaidd. | Machin et al., (2023), Hawke et al., (2024) |

## *Cyfleoedd ar gyfer gwella*

Roedd deunaw o erthyglau (42%) yn trafod ffactorau sy'n helpu i alluogi arbenigwyr-trwy-brofiad i gyfranogi ym maes rhannu gwybodaeth yn rhagweithiol. Roedd y rhan fwyaf o'r galluogwyr hyn, neu'r cyfleoedd ar gyfer gwella, yn ymateb i'r heriau a amlinellwyd uchod ynghylch effeithiolrwydd y berthynas waith rhwng aelodau'r tîm prosiect. Daeth pedwar maes cyffredinol i'w gwella i'r amlwg o'r llenyddiaeth:

- ***Cymryd amser i fuddsoddi mewn perthnasoedd sy'n parchu'r naill ochr a'r llall***
- ***Rhoi dull cyd-gynhyrchiol ar waith***
- ***Sicrhau cyfathrebu clir***
- ***Ymarfer myfyriol a gwybodus***

Roedd yn amlwg o'r llenyddiaeth bod meithrin perthnasoedd gwaith effeithiol gydag arbenigwyr-trwy-brofiad yn cymryd amser. Mae hyn yn golygu cynnal cyfathrebu clir drwy gydol y broses, gan sicrhau bod gwahanol farnau a safbwyntiau sy'n ymwneud â mater yn cael eu clywed a'u cydnabod. Mae dull cyd-gynhyrchu, sy'n cael ei gefnogi gan sgiliau, gwybodaeth a hyfforddiant priodol, yn hwyluso'r perthnasoedd gwaith effeithiol hyn. Bydd y pedwar maes hwn i'w gwella nawr yn cael eu trafod yn fwy manwl:

## *Cymryd amser i fuddsoddi mewn perthnasoedd sy'n parchu'r naill ochr a'r llall*

Roedd pwysigrwydd meithrin perthnasoedd sy'n parchu'r naill ochr a'r llall yn nodwedd gyffredin ar draws y llenyddiaeth, gydag awgrymiadau bod cyfranogiad llwyddiannus arbenigwyr-trwy-brofiad yn gofyn am ymddiriedaeth rhwng yr holl bartïon a pharch at y gwahanol arbenigedd a ddaw yn sgil gwahanol bartneriaid. Mae Flynn (2023, p. 2) yn pwysleisio sut:

**'mae parch, cyd-ddealltwriaeth** [rhwng ymchwilwyr ac arbenigwyr-trwy-brofiad]**, a chyfrifoldeb ymchwilwyr yn darparu sylfaen ar gyfer** [cynnwys arbenigwyr-trwy-brofiad mewn] **rhannu gwybodaeth yn rhagweithiol ac yn effeithiol'**

Mae enghraifft ymarferol o sut mae meithrin perthnasoedd a hwyluso cyswllt parhaus ag arbenigwyr-trwy-brofiad yn dod o brosiect Campbell et al. (2021), lle cafodd unigolion â phrofiad bywyd o ddigartrefedd ffonau symudol rhagdaledig. Helpodd hyn i oresgyn rhwystr ymarferol ac ariannol allweddol i feithrin perthnasoedd a chyfathrebu. Roedd enghraifft arall o sut i adeiladu perthnasoedd cadarnhaol mewn protocol astudiaeth gan Hugh-Jones et al. (2024, t. 5) a oedd yn bwriadu:

**'cynnal cyfarfodydd ymgysylltu ar-lein gyda phobl ifanc i ddechrau meithrin perthnasoedd cadarnhaol, i ddeall eu cymhellion, eu hanghenion, eu disgwyliadau a'u pryderon am gymryd rhan, a sut y gallwn liniaru unrhyw risgiau tybiedig a gwneud y gorau o'u gallu i gyfrannu.'**

Mae'r enghraifft hon yn tanlinellu pwysigrwydd ymgysylltu'n gynnar a meithrin perthnasoedd er mwyn sicrhau cyfranogiad mwy effeithiol mewn prosiectau yn nes ymlaen.

## *Sicrhau cyfathrebu clir*

Un risg a nodwyd yn y llenyddiaeth oedd anallu broceriaid gwybodaeth neu ymchwilwyr i 'warantu' y byddai newid polisi yn digwydd. Er bod broceriaid gwybodaeth ac ymchwilwyr yn aml yn pwysleisio gwerth cyfleoedd cyfranogi o ran galluogi 'llais' gwell a'r potensial ar gyfer newid cymdeithasol cadarnhaol, ni ellir gwarantu'r canlyniadau hyn, sy'n arwain at y posibilrwydd o siom ymhlith arbenigwyr-trwy-brofiad. I reoli hyn, roedd y llenyddiaeth yn argymell bod cyfathrebu clir ar bob cam o brosiect yn hanfodol. Mae hyn yn cynnwys cytuno ar ffyrdd o weithio a chreu disgrifiadau clir o rolau pawb.

**'Mae trafodaethau gonest am yr hyn y gellir ei wneud a'r hyn na ellir ei wneud yn elfen allweddol o gyfranogiad effeithiol... a chytuno ymlaen llaw ar egwyddorion sylfaenol fel cyd-barch, didwylledd a dwyochredd...'**

(Redman et al., 2021).

Mae'r un erthygl, sy'n trafod dyfodol cyd-gynhyrchu, yn trafod sut gall broceriaid gwybodaeth wella cyfathrebu drwy ddatblygu disgwyliadau a rennir, fel cytuno ar bwy sy'n pennu blaenoriaethau a phwy sy'n berchen ar yr wybodaeth. Er mwyn helpu i gyfathrebu ymhellach, gellir defnyddio adnoddau ac ysgogiadau gweledol. Mewn astudiaeth sy'n ymchwilio i gyd-ddylunio creadigol i hwyluso'r gwaith o rannu gwybodaeth yn rhagweithiol ym maes gofal iechyd (Grindell et al., 2022), datgelodd dadansoddiad o 14 o brosiectau fod tynnu lluniau a gwneud gweithgareddau yn caniatáu i unigolion fynegi eu profiadau'n haws. Arweiniodd adnoddau creadigol a gweledol at fwy o ymgysylltu ac arloesi. Roedd hefyd yn ddefnyddiol i rai prosiectau ymchwil ddefnyddio ymchwilydd dylunio, a allai gynllunio'r gweithdai a chynhyrchu allbwn wedi'i gyd-greu, gan hwyluso gweithgareddau a oedd yn hygyrch i bawb (e.e. Grindell et al., 2022).

## *Defnyddio dull cyd-gynhyrchu*

Fel yr amlygwyd yn adran yr adroddiad hwn sy'n trafod dulliau o gynnwys arbenigwyr-trwy-brofiad, roedd cytundeb eang yn y llenyddiaeth bod cyd-gynhyrchu yn ddull ffafriol. Mae cyd-gynhyrchu'n cynnwys ymgysylltu ag arbenigwyr-trwy-brofiad o gamau cynllunio cychwynnol prosiect, hyd at weithgareddau lledaenu. Mae'r dull o'r gwaelod i fyny hwn yn cadarnhau pob llais ym mhob rhan o'r prosiect (Lazarus, 2018).

Roedd un erthygl yn myfyrio ar gyd-gynhyrchu'r prosiect 'Co-creating Safe Spaces' (Fitzpatrick et al., 2023). Mae mannau diogel yn lleoliadau amgen i adrannau brys ysbytai, sy'n cael eu harwain gan gymheiriaid ac sydd wedi'u cyd-ddylunio'n benodol gyda phobl sydd â phrofiad bywyd o drallod emosiynol neu argyfyngau hunanladdol, gan gynnig cymorth diogel a hygyrch sy'n canolbwyntio ar adferiad. Cafodd nodau, methodoleg a dulliau'r prosiect eu llywio gan y gwerthoedd a'r egwyddorion a nodwyd yn y gwaith cychwynnol o gyd-ddylunio'r mannau diogel. Roedd y rhain yn cynnwys parch, cynhwysiant, dewis, tryloywder, diogelwch, profiadau bywyd, a gwerthfawrogi profiad ac arbenigedd pob unigolyn. Trwy gynnal gweithdy cyd-ddylunio a ddaeth â'r grŵp craidd o ymchwilwyr a phartneriaid allweddol at ei gilydd, roedd yr awduron yn gallu:

**'sefydlu gwerthoedd ac egwyddorion cyffredin ar gyfer cydweithio fel grŵp (e.e. rhannu pŵer, iaith a chyfathrebu, polisi awduraeth),' (t. 1741)**

## *Ymarfer myfyriol a gwybodus*

Y cyfle olaf i wella oedd annog a galluogi ymarfer myfyriol, wedi'i lywio gan ganllawiau perthnasol. Soniodd yr ymchwilwyr am bwysigrwydd meithrin eu galluoedd personol drwy gyfarfodydd rheolaidd a myfyrio ar eu hymarfer:

**‘Roedd adeiladu ein galluoedd ein hunain fel ymchwilwyr yn allweddol i’n gwaith paratoi. Cynhaliom gyfarfodydd rheolaidd, gan fyfyrio ar ddimensiynau ymarferol a moesegol ein gwaith, ymarfer ein rolau hwyluso, a chymryd rhan mewn digwyddiadau lleol’**

(Phipps et al., 2021, t. 3)

Un ffordd y gall hwyluswyr prosiectau wella ansawdd cyfranogiad arbenigwyr-trwy-brofiad yw drwy ddefnyddio’r canllawiau presennol sy’n ymwneud â’r dull hwn. Mae un erthygl yn yr adolygiad hwn (Walker et al., 2021) yn disgrifio ac yn myfyrio ar y dulliau o gynnwys pobl ifanc â phrofiad bywyd wrth integreiddio tystiolaeth cymhleth. Yn eu herthygl, maent yn cyfeirio at y canllawiau a gynhyrchwyd gan INVOLVE (2015), sef *Public Involvement in Research*: *Values and Principles Framework*. Mae’r canllawiau hyn yn cyflwyno chwe gwerth ac egwyddor i’w dilyn wrth gynnwys y rheini sydd â phrofiad bywyd mewn gwaith ymchwil: parch, cymorth, tryloywder, ymatebolrwydd, tegwch cyfle, ac atebolrwydd. Gall yr egwyddorion hyn hefyd gael eu hymestyn i gynnwys arbenigwyr-trwy-brofiad mewn prosiectau rhannu gwybodaeth yn rhagweithiol. Mae Walker et al. (2023) yn defnyddio’r canllawiau hyn yn eu hastudiaeth i fynd i’r afael â rhai o’r heriau a drafodwyd uchod:

1. Parch: Mae ymchwilwyr, sefydliadau ymchwil a'r cyhoedd yn parchu rolau a safbwyntiau ei gilydd.

2. Cymorth: Mae gan ymchwilwyr, sefydliadau ymchwil a'r cyhoedd fynediad at gymorth ymarferol a sefydliadol i gael eu cynnwys ac i gymryd rhan.

3. Tryloywder: Mae ymchwilwyr, sefydliadau ymchwil a'r cyhoedd yn glir ac yn agored am nodau a chwmpas cyfranogiad y gwaith ymchwil.

4. Ymatebolrwydd: Mae ymchwilwyr a sefydliadau ymchwil yn mynd ati i ymateb i fewnbwn aelodau'r cyhoedd sy'n ymwneud ag ymchwil.

5. Tegwch cyfle: Mae ymchwilwyr a sefydliadau ymchwil yn sicrhau bod cynnwys y cyhoedd mewn gwaith ymchwil yn agored i unigolion a chymunedau heb wahaniaethu.

6. Atebolrwydd: Mae ymchwilwyr, sefydliadau ymchwil a'r cyhoedd yn atebol am eu cyfranogiad mewn gwaith ymchwil ac i'r bobl y mae'r ymchwil yn effeithio arnynt.

Er eu bod yn canolbwyntio ar ymarfer ymchwil, gallai’r canllawiau hyn hefyd fod yn berthnasol ar gyfer prosiectau rhannu gwybodaeth yn rhagweithiol sy’n cynnwys arbenigwyr-trwy-brofiad, ac maent yn alinio’n agos â’r cyfleoedd ar gyfer gwella sy’n cael eu harchwilio yn yr adroddiad hwn.

# Casgliad

Integreiddiodd yr adolygiad cwmpasu hwn y dystiolaeth bresennol ynghylch ymgysylltu ag unigolion sydd ag arbenigedd profiad bywyd ym maes rhannu gwybodaeth yn rhagweithiol ac ymchwil polisi. Ceisiodd ateb y cwestiynau ymchwil canlynol:

1. Pa dystiolaeth, llenyddiaeth, adnoddau ac arweiniad sy'n bodoli ar rôl cyfranogiad unigolion â phrofiad bywyd yn y broses o rannu gwybodaeth yn rhagweithiol?

2. Beth mae hyn yn ei ddweud wrthym ni ynghylch pryd a sut y gall broceriaid gwybodaeth ddefnyddio unigolion â phrofiad bywyd orau i lywio a siapio ein gwaith?

Un o nodau allweddol yr adolygiad hwn oedd archwilio tystiolaeth ynghylch gwerth cynnwys arbenigwyr-trwy-brofiad ym maes ymchwil polisi a rhannu gwybodaeth yn rhagweithiol. Roedd y data'n darparu chwe rhesymeg glir ar gyfer ymgysylltu ag arbenigwyr-trwy-brofiad: a) mae'n foesegol briodol; b) mae'n darparu gwell dealltwriaeth o feysydd ymchwil, yn enwedig o ran cwmpasu a nodi blaenoriaethau; c) mae'n arwain at waith ymchwil mwy gwerthfawr ac ystyrlon; d) mae'n grymuso'r arbenigwyr-trwy-brofiad sy'n cymryd rhan; e) mae'n helpu i ddatblygu camau gweithredu ar y cyd; a f) gallai'r gwaith ymchwil a gynhyrchir gael mwy o effaith. Er nad yw hyn o reidrwydd yn golygu y dylai broceriaid gwybodaeth ddefnyddio'r dull hwn bob amser, roedd diben a gwerth ymgysylltu â dull o'r fath mewn rhai amgylchiadau yn amlwg ar draws y llenyddiaeth a adolygwyd.

Fodd bynnag, mae'n bwysig tynnu sylw at y ffaith bod yr erthyglau sydd wedi'u cynnwys yn yr adolygiad hwn wedi cael eu hysgrifennu gan awduron sydd naill ai wedi defnyddio'r dull hwn neu sy'n ei gefnogi. O ganlyniad, mae'r adolygiad yn adlewyrchu safbwyntiau'r rheini sy'n cefnogi'r dull hwn, yn hytrach na barn ac arferion ystod ehangach o sefydliadau brocera gwybodaeth. Yn ogystal, mae llawer o'r erthyglau yn trafod achosion ymchwil yn hytrach na phrosesau rhannu gwybodaeth yn rhagweithiol yn benodol.

Yn fethodolegol, darparodd y llenyddiaeth wybodaeth sylweddol i froceriaid gwybodaeth a oedd yn ystyried sut i ymgysylltu ag arbenigwyr â phrofiad bywyd. Gwaith ymchwil gweithredu cyfranogol neu waith ymchwil cyfranogol yn y gymuned oedd y dulliau methodolegol mwyaf cyffredin a ddefnyddiwyd yn y prosiectau a adolygwyd. Er nad oedd llawer o wybodaeth am yr amgylchiadau lle gallai fod yn fuddiol cynnwys arbenigwyr-trwy-brofiad mewn prosesau rhannu gwybodaeth yn rhagweithiol ar gyfer polisi neu ymarfer, un farn gyson ar draws y llenyddiaeth oedd y dylid cynnwys arbenigwyr-trwy-brofiad cyn gynted â phosibl ym mhroses y prosiect. Mae cysylltiad agos rhwng y dull hwn o gyd-gynhyrchu a'r rhesymeg dros ymgysylltu ag unigolion sydd ag arbenigedd sy'n seiliedig ar brofiad bywyd, gan ei fod yn helpu i sefydlu blaenoriaethau rhannu gwybodaeth yn rhagweithiol a chwestiynau ymchwil drwy gynnwys y rheini y mae mater yn effeithio arnynt yn uniongyrchol.

Mae'r adolygiad hwn hefyd yn tynnu sylw at y diffyg llenyddiaeth gyhoeddedig ar recriwtio a chydnabyddiaeth ariannol i arbenigwyr-trwy-brofiad. Er bod nifer fach o erthyglau wedi darparu manylion ynghylch eu strategaethau recriwtio a/neu gydnabyddiaeth ariannol, mae'r canllawiau cyffredinol a'r argymhellion ar gyfer broceriaid gwybodaeth sy'n ystyried y dull hwn yn dal yn gyfyngedig. Mae'r adolygiad yn tanlinellu'r angen am fwy o fanylion ynghylch strategaethau recriwtio a chydnabyddiaeth ariannol mewn gwaith cyhoeddedig yn y dyfodol.

Drwy'r adolygiad, roedd yn bosibl nodi rhwystrau a galluogwyr posibl i gynnwys arbenigwyr-trwy-brofiad ym maes ymchwil polisi a rhannu gwybodaeth yn rhagweithiol. Roedd yr heriau cyffredin yn cynnwys rhai sy'n ymwneud â chynllunio prosiectau, cyfathrebu ac anghydbwysedd pŵer. I oresgyn y rhwystrau hyn, roedd yr erthyglau'n tynnu sylw at alluogwyr penodol, yn bennaf mewn ymateb i heriau cyfathrebu. Wrth gynllunio dull o'r fath, mae neilltuo digon o amser ar gyfer meithrin perthnasoedd a chynnal hyfforddiant priodol yn ystyriaethau hanfodol ar gyfer broceriaid gwybodaeth.

I grynhoi, mae'r adolygiad bwrdd gwaith hwn yn tynnu sylw at y llenyddiaeth gynyddol ar gynnwys arbenigwyr-trwy-brofiad wrth rannu gwybodaeth yn rhagweithiol, yn enwedig yn y sector iechyd. Archwiliodd y rhan fwyaf o erthyglau enghreifftiau o rannu gwybodaeth yn rhagweithiol mewn ymarfer, gyda lefel uchel o gyfranogiad gan arbenigwyr-trwy-brofiad. Roedd yr erthyglau'n rhannu'r rhesymeg dros werth cyfranogiad, ond roedd llai o enghreifftiau pendant o sut cafodd y gwerth hwn ei wireddu. Roedd yr adolygiad hefyd yn dangos y potensial i gyfranogi ym mhob cam o'r broses o rannu gwybodaeth yn rhagweithiol, yn enwedig yn y cam cwmpasu. Drwy nodi'r heriau o ran defnyddio dull o'r fath a'r cyfleoedd i oresgyn yr heriau hyn, roedd yn bosibl penderfynu pryd a sut y gallai fod yn fwyaf priodol i froceriaid gwybodaeth ddefnyddio arbenigwyr-trwy-brofiad yn eu gwaith.



# Cyfeirnodau

Aguzzoli Peres, F., Haas, A. N., Martha, A. D., Chan, M., Steele, M., Ferretti, M. T., Ngcobo, N. N., Ilinca, S., Domínguez-Vivero, C., Leroi, I., Sajnani, N., Zimmer, E. R., Kornhuber, A., Kalache, A., Holtzhausen, B., Tristão-Pereira, C., Dupont, C., Cohen, D., de Jong, D., Facal, D., ... Ibanez, A. (2024). **Walking the talk for dementia: A unique immersive, embodied, and multi-experiential initiative.** Alzheimer's & dementia: the journal of the Alzheimer's Association, 20(3), 2309–2322.

Appleton, R., Barnett, P., Chipp, B., Clark, M., Goldblatt, P., Jeffreys, S., Machin, K., Needle, J., Shah, P., Thompson, G., Trevillion, K., Webber, M., Worden, M., Johnson, S. & Lloyd-Evans, B. (2023). **Development of a conceptual framework to guide description and evaluation of social interventions for people with serious mental health conditions,** SSM – Mental Health, 4

Arksey, H., & O'Malley, L. (2005). **Scoping studies: towards a methodological framework.** International Journal of Social Research Methodology, 8(1), 19–32.

Askew, R., Griffiths, B. & Bone, M., (2022). **The importance of PEOPLE who use drugs within drug policy reform debates: Findings from the UK Drug Policy Voices online survey.** International Journal of Drug Policy, 105,

ASPE, (2022). **Engaging People with Lived Experience to Improve Federal Research, Policy, and Practice.** Retrieved from: https://aspe.hhs.gov/lived.experience

Ayiwe, E., Colom, A., Cook, A., Murray, A. & Parry, L. (2022). **Engaging People with Lived Experience: best practice, challenges and opportunities.** Health and Social Alliance Scotland. Retrieved from: https://www.alliance-scotland.org.uk/wp-content/uploads/2022/10/Lived_Experience_Report_2022_WEB.pdf

Bailey, A., Graham, B., Harps, M. (2023). **Vancouver's Alcohol Knowledge Exchange: lessons learned from creating a peer-involved alcohol harm reduction strategy in Vancouver's Downtown Eastside.** Harm Reduction Journal, 20(93).

Bandola-Gill, J., Arthur, M., & Leng, R. I. (2023). **What is co-production? Conceptualising and understanding co-production of knowledge and policy across different theoretical perspectives.** Evidence & Policy, 19(2), 275-298.

Beames, J., Kikas, K., O'Gradey-Lee, M., Gale, N., Werner-Seidler, A., Boydell, K., & Hudson, J., (2021). **A New Normal: Integrating Lived Experience Into Scientific Data Syntheses.** Frontiers in psychiatry, 12, 763005.

Brett, J., Staniszewska, S., Mockford, C., Herron-Marx, S., Hughes, J., Tysall, C., & Suleman, R. (2014). **A systematic review of the impact of patient and public involvement on service users, researchers and communities.** The patient, 7(4), 387–395.

Cámara-Menoyo, C., Porto de Albuquerque, J., Suchomska, J., Tregonning, G. & McInerny, G. (2024). **Co-designing grounded visualisations of the Food-Water-Energy nexus to enable urban sustainability transformations.** Environmental Science & Policy,154,

Campbell, D., Campbell, R., DiGiandomenico, A., Larsen, M., Davidson, M., McBrien, K., Booth, G., and Hwang, S. (2021) **Using a community-based participatory research approach to meaningfully engage those with lived experience of diabetes and homelessness.** BMJ Open Diabetes Research and Care

Chandler, D., & Munday, R. (2011). **A Dictionary of Media and Communication**.: Oxford University Press. Retrieved 21 Jun. 2024, from https://www.oxfordreference.com/view/10.1093/acref/9780199568758.001.0001/acref-9780199568758.

Chick, N., Nowell, L., & Lenart, B. (2019). **The scholarship of teaching and learning: A scoping review protocol.** Teaching and Learning Inquiry, 7(2), 186–197. https://doi.org/10.20343/teachlearninqu.7.2.12

Cholette, F., Lazarus, L., Macharia, P., Thompson, L. H., Githaiga, S., Mathenge, J., Walimbwa, J., Kuria, I., Okoth, S., Wambua, S., Albert, H., Mwangi, P., Adhiambo, J., Kasiba, R., Juma, E., Battacharjee, P., Kimani, J., Sandstrom, P., Meyers, A., Joy, J., … Lorway, R. (2023). **Community Insights in Phylogenetic HIV Research: The CIPHR Project Protocol.** Global public health, 18(1)

**Experts-by-Experience Employment Initiative**, (2024) Retrieved from: https://www.ebeemployment.org.uk/

Fitzpatrick, S. J., Lamb, H., Stewart, E., Gulliver, A., Morse, A. R., Giugni, M., & Banfield, M. (2023). **Co-ideation and co-design in co-creation research: Reflections from the 'Co-Creating Safe Spaces' project.** Health expectations: an international journal of public participation in health care and health policy, 26(4), 1738–1745.

Cloke, J., Hassan, S., Goodall, M., Ring, A., Saini, P., Tahir, N., and Gabbay, M. (2023). **Tapping into the power of coproduction and knowledge mobilisation: exploration of a facilitated interactive group learning approach to support equity-sensitive decision-making in local health and care services.** Health Expectations, 26: 1692-1702.

Flynn, M. (2023). **Enhancing knowledge mobilisation and community engagement for research in Inuit Nunangat: A case study of participatory policymaking and collaborative research partnership in Nunatsiavut.** PhD thesis, University of Leeds.

Freebairn, L., Song, Y.J.C., Occhipinti, J., Huntley, S., Dudgeon P., Robotham, J., Yeeun Lee, G., Hockey, S., Gallop, G., and Hickie, I. (2022). **Applying systems approaches to stakeholder and community engagement and knowledge mobilisation in youth mental health system modelling.** International Journal of Mental Health Systems, 16, 20. Golann, J. W., Mirakhur, Z., & Espenshade, T. J. (2019). **Collecting Ethnographic Video Data for Policy Research.** American Behavioral Scientist, 63(3), 387-403. https://doi.org/10.1177/0002764218820566

GOV.UK (2024) **What Works Network**. GOV.UK, Retrieved from: https://www.gov.uk/guidance/what-works-network

Grindell, C., Coates, E., Croot, L., & O'Cathain, A. (2022). T**he use of co-production, co-design and co-creation to mobilise knowledge in the management of health conditions: a systematic review.** BMC Health Services Research, 22, 877.

Grindell, C., Sanders, T., Bec, R., Tod, A.M, & Wolstenholme, D. (2022). **Improving knowledge mobilisation in healthcare: a qualitative exploration of creative co-design methods.** Evidence and Policy, 18(2), 265-290.

Hawke, L, Rockburne, F., Hiebert, M., Putterman, C. & Sheikhan, N. Y. (2024). **Discussing the gaps in the science and practice of lived experience engagement in mental health and substance use research: results of knowledge mobilization activities.** Research Involving Engagement, 10(23).

Higgins, J, Arnold, S., Weise, J., Pellicano, E., & Trollor, J. N. (2021). **Defining autistic burnout through experts by lived experience: Grounded Delphi method investigating #AutisticBurnout.** Autism, 25(8), 2356-2369.

Hugh-Jones, S., Butcher, I., & Bhui, K, (2024). **Co-design and evaluation of a youth-informed organisational tool to enhance trauma-informed practices in the UK public sector: a study protocol.** BMJ Open, 14(3)

Hughes, A., Guha, C., Sluiter, A., Himmelfarb, J., Jauré, A., (2024). **Patient-Centered Research and Innovation in Nephrology.** Advances in Kidney Disease and Health, 31(1), 52-67

Human Trafficking Foundation. (2023). **LEAP (Lived Experience Advisory Panel) Annual Report.** Retrieved from: https://www.humantraffickingfoundation.org/leap

Langley, J., Partridge, R., Gwilt, I. & Wolstenholme, D., (2017). **Using Knowledge Mobilisation Theory to inform the design of the co-design workshop for healthcare research and innovation**. In: Barron, D., and Seeman, K., (eds.) Design4Health, Melbourne. 334-336.

Langley, J., Wolstenholme, D. & Cooke, J. (2018). **'Collective making' as knowledge mobilisation: the contribution of participatory design in the co-creation of knowledge in healthcare.** BMC Health Services Research 18, 585

Lazarus, S. (2018). **Participatory Action Research Practice and Social Policy Engagement.** In: Power and Identity in the Struggle for Social Justice. Community Psychology. Springer, Cham. 65-89

Levin, B. (2013), **To know is not enough: research knowledge and its use.** Review of Education, 1: 2-31. https://doi.org/10.1002/rev3.3001

Lockwood, C., Dos Santos, K. B., & Pap, R. (2019). **Practical Guidance for Knowledge Synthesis: Scoping Review Methods**. Asian nursing research, 13(5), 287–294. https://doi.org/10.1016/j.anr.2019.11.002

Loizidou, X.I., L. Orthodoxou, D., I. Loizides, M., Petsa, D. & Anzidei, M. (2024). **Adapting to sea level rise: participatory, solution-oriented policy tools in vulnerable Mediterranean areas**. Environment and Systems Decisions, 44, 126–144.

Jones, C.H., Seddon, D., Algar-Skaife, K., Maddock, C. & Green, S. (2024), **Involving older adults and unpaid carers in the research cycle: reflections on implementing the UK national standards for public involvement into practice.** Quality in Ageing and Older Adults, 25(1), 44-55.

Johnston-Devin, C., Oprescu, F., Gray, M., & Wallis, M. (2021). **Patients describe their lived experiences of battling to live with complex regional pain syndrome**. The Journal of Pain, 22(9), 1111-1128.

McCloskey, L., Bernstein, J., The Bridging The Chasm Collaborative, Amutah-Onukagha, N., Anthony, J., Barger, M., Belanoff, C., Bennett, T., Bird, C. E., Bolds, D., Brenna, B. W., Carter, R., Celi, A., Chachere, B., Crear-Perry, J., Crossno, C., Cruz-Davis, A., Damus, K., Dangel, A., Depina, Z., … Lachance, C. (2021). **Bridging the Chasm between Pregnancy and Health over the Life Course: A National Agenda for Research and Action.** Women's health issues: official publication of the Jacobs Institute of Women's Health, 31(3), 204–218.

McIntosh, I. & Wright, S., (2019). **Exploring what the Notion of "Lived Experience" Offers for Social Policy Analysis,** Journal of Social Policy, 48(3), 449–467.

Peters, L., Hobson, C. W., & Samuel, V. (2021). **A systematic review and meta-synthesis of qualitative studies that investigate the emotional experiences of staff working in homeless settings.** Health & Social Care in the Community, 30, 58–72. https://doi.org/10.1111/hsc.13502

Phipps, E., Butt, T., Desjardins, N., Schonauer, M., Schlonies, R., Masuda, J. (2021). **Lessons from a rural housing crisis: grounded insights for intersectoral action on health inequities,** Social Science & Medicine, 270.

Pollock, D., Davies, E. L., Peters, M. D. J., Tricco, A. C., Alexander, L., McInerney, P., Godfrey, C. M., Khalil, H., & Munn, Z. (2021). **Undertaking a scoping review: A practical guide for nursing and midwifery students, clinicians, researchers, and academics.** Journal of advanced nursing, 77(4), 2102–2113. https://doi.org/10.1111/jan.14743

Powell, K., Kitson, A., Hoon, E., Newbury, J., Wilson A. & Beilby, J. (2013). **A study protocol for applying the co-creating knowledge translation framework to a population health study.** Implementation Science, 8, 98.

MacGregor, S., Cooper, A., Searle, M., & Kukkonen, T. (2022). **Co-production and arts-informed inquiry as creative power for knowledge mobilisation.** Evidence & Policy, 18(2), 206-235.

Machin, K., Shah, P., Nicholls, V., Jeynes, T., Trevillion, K. & Vera San Juan, N, (2023). **Co-producing rapid research: Strengths and challenges from a lived experience perspective.** Frontiers in Sociology, 8

McEwen, L., Roberts, L., Holmes, A., Blake, J., Liguori, A. & Taylor, T. (2022). **Building local capacity for managing environmental risk: a transferable framework for participatory, place-based, narrative-science knowledge exchange.** Sustainability Science 17, 2489–2511.

McKendrick, J., Marchbank, J. & Sinclair, S., (2021). **Co-production involving 'experts with lived experience of poverty' in policy and service development in Scotland: a rapid review of academic literature.** Scottish Poverty & Inequality Research Unit (SPIRU). Retrieved from: https://povertyinequality.scot/wp-content/uploads/2021/05/Co-production-involving-experts-with-lived-experience-of-poverty-a-rapid-review-May-2021.pdf

McQuaid, K., Vanderbeck, R. M., & Mbabazi, L. (2020). **'Girls have powers': using research-led arts to connect policymaking with girls' lived experiences in Uganda.** Gender, Place & Culture, 28(5), 605–626.

NIHR, (2024) **How to involve the public in Knowledge mobilisation**. Retrieved from: https://evidence.nihr.ac.uk/collection/how-to-involve-the-public-in-knowledge-mobilisation/

Redman, S., Greenhalgh, T., Adedokun, L., Staniszewska, S. & Denegri, S. (2021). **Co-production of knowledge: the future** The BMJ, 372.

Reid, C., Landy, A., & Henderson, J. (2022). **'Knocking at the door of humanity': using co-creation and community-based participatory research to foster citizenship for individuals with lived experience of dementia.** Leisure/Loisir, 47(2), 257–280.

Sandhu, D. (2019). **Healthcare educational leadership in the twenty-first century.** Medical teacher, 41(6), 614-618.

Santaella, M., Carlson, S., DiMichele, D., Norris, K., Valadez, S., Valentino, L., Vazquez, E., Witkop, M. & Recht, M., (2023). **Walking the Walk: Inclusion of Experts-by-experience in the Design of the National Hemophilia Foundation's National Research Blueprint for Those Living with Inherited Bleeding Disorders**, Blood, 142(1),

Sinclair J., Aslan B., Agabio R., Anilkumar A., Brosnan M., Day E, Dowling N., Flood C., Grant J., Halliday R, Hofvander B., Howes L., Moseley R., Myers B., O'Connor V., Shaya G., Thomas S., Robinson J. & Chamberlain S., (2023). **Identifying the most important research, policy and practice questions for substance use, problematic alcohol use and behavioural addictions in autism (SABA-A): A priority setting partnership,** Comprehensive Psychiatry,124,

Social Sciences and Humanities Research Council of Canada, (2016). **SSHRC – definitions of terms [WWW Document**]. Retrieved from: http://www.sshrc-crsh.gc.ca/funding-financement/programs-programmes/definitions-eng.aspx#km-mc

Sovacool, B., Turnheim, B., Hook, A., Brock, A. & Martiskainen, M., (2021). **Dispossessed by decarbonisation: Reducing vulnerability, injustice, and inequality in the lived experience of low-carbon pathways.** World Development, 137, Staniszewska, S., Brett, J., Simera, I., Seers, K., Mockford, C., Goodlad, S., ... & Tysall, C. (2017). **GRIPP2 reporting checklists: tools to improve reporting of patient and public involvement in research**. bmj, 358.

Swaithes L., (2024). **How to involve the public in knowledge mobilisation: insights from the NIHR**. Retrieved from: http://evidence.nihr.ac.uk/collection/how-to-involve-the-public-in-knowledge-mobilisation/

Thom, K., Black, S., Burnside, D. & Hastings, J. (2022). **He Ture Kia Tika /Let the Law Be Right: informing evidence-based policy through kaupapa Maori and co-production of lived experience.** Evidence & Policy: A Journal of Research, Debate and Practice. 18.

Tremblay, C., & de Jayme, B. O. (2015). **Community knowledge co-creation through participatory video.** Action Research, 13(3), 298-314.

Tricco, A. C., Lillie, E., Zarin, W., O'Brien, K. K., Colquhoun, H., Levac, D., Moher, D., Peters, M. D. J., Horsley, T., Weeks, L., Hempel, S., Akl, E. A., Chang, C., McGowan, J., Stewart, L., Hartling, L., Aldcroft, A., Wilson, M. G., Garritty, C., Lewin, S., ... Straus, S. E. (2018). **PRISMA Extension for Scoping Reviews (PRISMA-ScR): Checklist and Explanation**. Annals of internal medicine, 169(7), 467–473.

Tseng, V. (2012). **The uses of research in policy and practice.** Washington, DC: Society for Research in Child Development.

Wales Centre for Public Policy. (2023). WCPP working knowledge mobilisation process.

Walker, E., Shaw, L., Nunns, M., Moore, D. & Thompson Coon, J., (2021). **No evidence synthesis about me without me: Involving young people in the conduct and dissemination of a complex evidence synthesis.** Health Expectations. 24, 122–133.

Willis, R., Ainscough, J., Bryant, P., Goold, L., Livermore, M. & Tosal, C., (2024). **Citizen and specialist co-design of energy policy: The case of home energy decarbonization in the UK**. Environmental Science & Policy,155,

Wydall, S., Zerk, R., & Freeman, E. (2023). **Making the invisible, visible: Older lesbian, gay and bisexual victimsurvivors' "lived experiences" of domestic abuse.** Journal of Adult Protection, 25(3), 167-185.

# Atodiad 1: Termau Chwilio

| | |
|---|---|
| **Arbenigwyr-trwy-brofiad (Experts-by-Experience)** | "lived experience" NEU "experts by experience" NEU "deliberative mini-publics" NEU "community mentor" NEU "direct experience" NEU "participatory" NEU "co-design" NEU "co-production"<br><br>A |
| **Ymchwil Polisi a Rhannu Gwybodaeth yn Rhagweithiol (Policy Research and Knowledge Mobilisation)** | "policy research" NEU "knowledge mobilisation" NEU "mobilisation of knowledge" NEU "knowledge brokering" NEU "evidence-based policy" NEU "evidence-informed policy" NEU "knowledge exchange" NEU "participatory knowledge mobilisation" NEU "equitable knowledge mobilisation" NEU "knowledge co-creation" NEU "collective making" NEU "evidence synthesis"<br><br>A |
| **Math o lenyddiaeth / dogfen (Type of literature / document)** | "good practice" NEU "tools" NEU "best practice" NEU "guidance" NEU "guides" NEU "practice synthesis" NEU "approaches" NEU "design features" |

# Atodiad 2: Tabl Erthyglau

| Cyfeirnod | Math o lenyddiaeth | Cwmpas / Pwrpas yr erthygl | Dulliau | Rhannu gwybodaeth yn rhagweithiol | Gwybodaeth Ychwanegol |
|---|---|---|---|---|---|
| Aguzzoli et al., (2024) | Astudiaeth empirig | I ddisgrifio "Walking the Talk for Dementia," menter â'r nod o rymuso pobl â dementia, gwella dealltwriaeth o ddementia, ac ysbrydoli cydweithrediadau. | Roedd y fenter hon yn cynnwys 300 o gyfranogwyr o 25 o wledydd, gan gynnwys pobl â dementia, partneriaid gofal, clinigwyr, llunwyr polisïau, ymchwilwyr ac eiriolwyr, am daith gerdded 40km dros 4 diwrnod, ar lwybr pererindod y Camino de Santiago de Compostela yn Sbaen. Darparodd symposiwm 2 ddiwrnod ar ôl y daith strwythurau trawsddisgyblaethol a llorweddol newydd, gan ddatgymalu hierarchaethau traddodiadol. | Nod y daith gerdded a'r symposiwm 2 ddiwrnod oedd cynnig cyfleoedd i gyfnewid gwybodaeth er mwyn gwella dealltwriaeth, lleihau stigma, a hyrwyddo gofal ac ymchwil dementia mwy cynhwysfawr ac empathig. | Roedd menter 'Walking the Talk for Dementia' yn rhan o gonsortiwm aml-bartner i ehangu ymchwil dementia. |
| Appleton et al., (2023) | Adolygiad cwmpasu | I nodi modelau sy'n gwella amgylchiadau cymdeithasol ar draws wyth parth bywyd ar gyfer pobl sydd â chyflyrau iechyd meddwl difrifol. Cynhaliwyd y gwaith hwn ar y cyd â grŵp o randdeiliaid arbenigol, gan gynnwys pobl sydd â phrofiad bywyd o ddefnyddio gwasanaethau iechyd meddwl. | Cynhaliwyd adolygiad cwmpasu o'r llenyddiaeth ryngwladol bresennol, a chynhaliwyd ymgynghoriad arbenigol i nodi modelau cymorth sydd â'r nod o wella amgylchiadau cymdeithasol ar draws wyth maes bywyd i bobl â chyflyrau iechyd meddwl difrifol. Fe wnaeth hyn lywio datblygiad iteraidd fframwaith cysyniadol i ddisgrifio a chategoreiddio dulliau cyffredinol o gefnogi modelau ar gyfer cyflyrau iechyd meddwl difrifol, gyda'r fframwaith yn cael ei fireinio drwy drafodaethau â gweithgor rhanddeiliaid, gan gynnwys arbenigwyr-trwy-brofiad, darparwyr gwasanaethau, ac arbenigwyr academaidd. | Datblygwyd fframwaith cysyniadol sy'n gwahaniaethu ffynonellau a mathau o gymorth i wella amgylchiadau cymdeithasol pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl difrifol, gan ddarparu fframwaith i lywio'r gwaith o ddatblygu a gwerthuso gwasanaethau yn y dyfodol. | Wedi'i gynnal gan Uned Ymchwil Polisi (PRU) NIHR ym maes Iechyd Meddwl. |

| Cyfeirnod | Math o lenyddiaeth | Cwmpas / Pwrpas yr erthygl | Dulliau | Rhannu gwybodaeth yn rhagweithiol | Gwybodaeth Ychwanegol |
|---|---|---|---|---|---|
| ASPE, (2022) | Tudalen We | Tudalen we sy'n cysylltu â deunyddiau a baratoir gan ASPE wrth iddo arwain gwaith ar sut mae asiantaethau a rhaglenni ffederal yn gallu ymgysylltu'n ystyrlon ac yn effeithiol â phobl sydd â phrofiad bywyd. | Mae'r dudalen we yn cysylltu â dogfen o'r enw: *Methods and Emerging Strategies to Engage People with Lived Experience.* | Mae llawer o'r prosiectau a'r mentrau a gynhelir gan ASPE yn canolbwyntio'n bennaf ar rannu gwybodaeth yn rhagweithiol, e.e. 'National Youth in Transition Database Reviewers' | ASPE: Swyddfa'r Ysgrifennydd Cynorthwyol dros Gynllunio a Gwerthuso. |
| Bailey et al., (2023) | Sylwadau | Tynnu sylw at brofiadau o gynhyrchu polisi alcohol dan arweiniad y gymuned drwy *Vancouver Alcohol Strategy*, gan roi sylw penodol i'r ffyrdd lle'r oedd pobl sy'n defnyddio alcohol eu hunain yn ganolog trwy gydol y broses datblygu polisi. | Cynhaliodd yr *Eastside Illicit Drinkers Group for Education*, grŵp cysylltiedig y Vancouver Area Network of Drug Users, gyfarfod rheolaidd o randdeiliaid, a elwir yn 'gymuned ymarfer', i ddod â chyfoedion a oedd yn defnyddio alcohol (yfadwy a heb fod yn yfadwy), darparwyr lloches a gwasanaethau lleihau niwed, gweithwyr iechyd cyhoeddus proffesiynol, clinigwyr a llunwyr polisi at ei gilydd i wella capasiti ar lefel system i leihau niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol. Cafodd y trafodaethau a ddeilliodd o'r cyfarfodydd hyn eu trawsnewid i greu *Vancouver Alcohol Strategy*, fframwaith polisi cynhwysfawr sy'n canolbwyntio ar leihau niwed o alcohol. | Roedd y prosiect Alcohol Knowledge Exchange yn fenter rhannu gwybodaeth yn rhagweithiol, a'i phrif nod oedd datblygu fframwaith polisi ar gyfer lleihau niwed o alcohol. | Cynhaliwyd y prosiect gan *Eastside Illicit Drinkers Group for Education*. |

| Cyfeirnod | Math o lenyddiaeth | Cwmpas / Pwrpas yr erthygl | Dulliau | Rhannu gwybodaeth yn rhagweithiol | Gwybodaeth Ychwanegol |
|---|---|---|---|---|---|
| Bandola-Gill et al., (2023) | Adolygiad | Pennu ystod a natur y defnydd o'r term 'cyd-gynhyrchu gwybodaeth' ar draws llenyddiaethau amrywiol, er mwyn egluro ei gysyniad. | Cynhaliwyd chwiliad systematig o Web of Science drwy ymholiad a gynlluniwyd i gipio llenyddiaeth sy'n debygol o ffocysu ar gyd-gynhyrchu. Cafodd pob dogfen ei harchwilio â llaw i weld a oedd yn berthnasol. Yna, defnyddiwyd dadansoddiad o'r rhwydwaith cyfeiriadau i 'fapio' y llenyddiaeth hon drwy grwpio papurau i glystyrau yn seiliedig ar ddwysedd dolennu cyfeirio. Cafodd y papurau a gyfeiriwyd atynt amlaf ym mhob clwstwr eu dadansoddi'n thematig. | Nododd y gwaith ymchwil hwn bum ystyr o gyd-gynhyrchu, gyda 'rheoli ffiniau' yn eu plith. Mae hyn yn ffocysu ar ddefnyddioldeb gwybodaeth, gyda'r prif ffocws ar strwythurau sy'n cefnogi'r defnydd cynyddol o wybodaeth wyddonol mewn lleoliadau polisi, mynd i'r afael â'r bwlch a welir rhwng cynhyrchu tystiolaeth a'i defnyddio wrth lunio polisïau. | Cynhaliwyd y gwaith ymchwil gan Brifysgol Caeredin. |
| Beames et al., (2021) | Sylwebaeth | Nodi'r bwlch ac adeiladu achos dros integreiddio profiad bywyd yn briodol wrth integreiddio data yn y dyfodol. | Ar draws y prosiectau a gomisiynwyd a drafodir yn yr erthygl barn hwn, defnyddiodd timau ymchwil gymwysiadau unigryw o safbwyntiau profiad bywyd. Roedd hyn yn cynnwys cymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau am y prosiect (e.e. cwestiynau ymchwil), diffinio'r broses adolygu, adolygu tystiolaeth, dadansoddi ac integreiddio tystiolaeth, ac adrodd a lledaenu. | Ffocws yr erthygl barn hon yw adeiladu achos ar gyfer cynnwys arbenigwyr profiadau bywyd wrth integreiddio data, sy'n ddull allweddol a ddefnyddir gan froceriaid gwybodaeth i rannu gwybodaeth yn rhagweithiol. | Cynhyrchwyd gan University of New South Wales. |

| Cyfeirnod | Math o lenyddiaeth | Cwmpas / Pwrpas yr erthygl | Dulliau | Rhannu gwybodaeth yn rhagweithiol | Gwybodaeth Ychwanegol |
|---|---|---|---|---|---|
| Camara- Menoyo et al. (2024) | Astudiaeth empirig | Cyflwyno a gwerthuso'r broses o gyd-ddylunio adnodd delweddu Nexus Bwyd-Dŵr-Ynni (FWE) ar gyfer rhanddeiliaid sy'n ymwneud ag addysg cyn-ysgol yn Słupsk, Gwlad Pwyl, drwy ddylunio arteffact digidol a gweithredu proses ddysgu i gyd-gynhyrchu gwybodaeth drwy gyd-greu adnodd delweddu. | Roedd y broses yn dilyn dull Dylunio sy'n Canolbwyntio ar y Defnyddiwr ar gyfer Cyfathrebu Gwyddoniaeth, a oedd yn cynnwys pedwar cam: 1) Sylfeini; 2) Datblygu Meddalwedd; 3) Adolygiad Tîm Trawsddisgyblaethol; a 4) Gwerthusiad. Rhoddwyd pob cam ar waith drwy gyfres o weithgareddau, gan gynnwys cyfarfodydd bob yn ail wythnos rhwng y partneriaid lleol yng Ngwlad Pwyl a'r tîm delweddu yn y DU. | Cafodd yr adnodd delweddu sydd wedi'i greu ar y cyd gan y prosiect hwn ei ddefnyddio i rannu gwybodaeth yn rhagweithiol am y costau amgylcheddol sy'n gysylltiedig ag arlwyo bwyd cyhoeddus. | Rhan o'r prosiect trawsddisgy-blaethol *'Creating Interfaces'*. |
| Campbell et al. (2021) | Astudiaeth empirig | Disgrifio'r broses a'r heriau o gynnal prosiect ymchwil cyfranogol, gan dynnu sylw at brofiadau cyd-ymchwilwyr sy'n gleifion ac ymchwilwyr academaidd ym maes ymchwil diabetes i'r gwasanaeth iechyd. | Recriwtiwyd pobl â phrofiad bywyd o ddigartrefedd a diabetes fel cyd-ymchwilwyr sy'n gleifion, a gofynnwyd iddynt ymrwymo i fynychu cyfarfodydd bob yn ail wythnos. Cynhaliwyd dau brosiect ymchwil: mapio cysyniadau i ddewis ffocws ymchwil, a PhotoVoice i archwilio mynediad at fwyd iach wrth fod yn ddigartref. Defnyddiwyd dyluniad dulliau cymysg cydgyfeiriol i werthuso eu profiadau. | Cyflwynwyd y prosiect *PhotoVoice* (ynghylch cael gafael ar fwyd iach wrth fod yn ddigartref) mewn ysbytai lleol, sefydliadau ymchwil, mannau arddangos cyhoeddus, a chynadleddau cenedlaethol, gan gynnwys *Diabetes Canada, Canadian Alliance to End Homelessness* a *North American Primary Care Research Group*. | Cynhaliwyd y gwaith ymchwil gan Brifysgol Calgary. |

| Cyfeirnod | Math o lenyddiaeth | Cwmpas / Pwrpas yr erthygl | Dulliau | Rhannu gwybodaeth yn rhagweithiol | Gwybodaeth Ychwanegol |
|---|---|---|---|---|---|
| Cholette et al., (2023) | Protocol | Ymgysylltu â gweithredwyr cymunedol sy'n byw yn Nairobi, Kenya, mewn proses cyfnewid gwybodaeth drwy Brosiect CIPHR (*Community Insights in Physogenetic HIV Research*). Nod y dull cyfranogol hwn yn y gymuned yw (1) archwilio posibiliadau a chyfyngiadau epidemioleg foleciwlaidd HIV ar gyfer rhaglenni poblogaeth allweddol, (2) peilota astudiaeth foleciwlaidd HIV yn y gymuned, a (3) cyd-ddatblygu canllawiau polisi ar gyfer cynnal epidemioleg foleciwlaidd HIV sy'n foesegol ddiogel. | Creu cyfres o fforymau trafod lle gall gweithredwyr cymunedol lleol ymgysylltu'n feirniadol â gwybodaeth wyddonol arbenigol, ei barnu a'i hail-ddehongli drwy broses iteraidd, sy'n cael ei chynnal mewn cyfres o weithdai trafod beirniadol. | Mae'r protocol hwn yn amlinellu cynlluniau i gyd-gynhyrchu crynodebau technegol lleyg o ddulliau moleciwlaidd a data presennol i archwilio'n ailadroddol y posibiliadau a chyfyngiadau defnyddio canfyddiadau o ddadansoddiadau moleciwlaidd i lywio ymyriadau sy'n seiliedig ar rwydweithiau. Yna, bydd gwybodaeth arbenigol leyg yn cael ei lledaenu drwy gyflwyniadau a fforymau trafod lleol, gan gynnig cyfle i'r gymuned ehangach archwilio ac ymateb i'r defnydd posibl o ddadansoddiad ffylogenetig wrth atal HIV. | Gelwir yn *Community Insights in Phylogenetic HIV Research (CIPHR) Project*. |

| Cyfeirnod | Math o lenyddiaeth | Cwmpas / Pwrpas yr erthygl | Dulliau | Rhannu gwybodaeth yn rhagweithiol | Gwybodaeth Ychwanegol |
|---|---|---|---|---|---|
| Cloke et al., (2023) | Astudiaeth empirig | Adrodd ar astudiaeth o ddull dysgu grŵp rhyngweithiol wedi'i hwyluso, drwy Grwpiau Gweithredu Cydweithredol, a sefydlwyd i wella'r gallu i werthuso gwasanaethau gofal iechyd mewn modd sy'n sensitif i bawb er mwyn llywio penderfyniadau lleol: (1) Sut brofiad cafodd y rheini a gymerodd ran yn y Grwpiau Gweithredu Cydweithredol? (2) Sut cyflawnwyd y broses o rannu gwybodaeth yn rhagweithiol? (3) Beth yw'r elfennau allweddol sy'n gwella'r broses o gyd-gynhyrchu gwerthusiadau sy'n sensitif i bawb? | Archwiliodd dadansoddiad thematig o ddata ansoddol a gafwyd o drafodaethau'r grŵp ffocws a chyfweliadau lled-strwythuredig brofiadau cyfranogwyr. Roedd pob Grŵp Ffocws yn cynnwys cynrychiolaeth gan gyfranogwyr ar draws gwahanol brosiectau yn y rhaglen. Cynhaliwyd y cyfweliadau gydag aelod o bob tîm a oedd yn cymryd rhan yn y garfan gyntaf ar ôl eu gweithdy terfynol. | Hwyluswyd rhannu gwybodaeth yn rhagweithiol drwy sefydlu a meithrin perthnasoedd rhwng rhanddeiliaid gwybodaeth ac actorion. Digwyddodd hyn drwy ledaenu ac integreiddio gwybodaeth drwy gronfeydd data ar-lein, strategaethau cyfathrebu, a gwasanaethau integreiddio tystiolaeth. Hwyluswyd dysgu rhyngweithiol a chyd-gynhyrchu drwy brosiectau ymchwil cyfranogol a setiau dysgu drwy weithredu. | Cynhaliwyd y prosiect gan Brifysgol Lerpwl. |

| Cyfeirnod | Math o lenyddiaeth | Cwmpas / Pwrpas yr erthygl | Dulliau | Rhannu gwybodaeth yn rhagweithiol | Gwybodaeth Ychwanegol |
|---|---|---|---|---|---|
| Fitzpatrick et al., (2023) | Sylwebaeth | Archwilio'r defnydd o fframwaith systematig a gyhoeddwyd sydd wedi'i ddylunio i wella eglurder ynghylch cyd-greu fel cysyniad a dull gweithredu. Mae'r fframwaith yn cael ei archwilio ar sail y ddwy broses gyntaf sy'n cyfateb i waith yr awduron eu hunain hyd yma: cyd-gynllunio a chyd-ddylunio. | Astudiaeth achos allweddol wedi'i seilio ar brofiadau personol yr awduron o ddylunio a chydlynu'r prosiect *Co-Creating Safe Spaces*. Drwy gasglu'r wybodaeth amlycaf am gwestiynau 'sut', 'beth', a 'pham', gan gynnwys rhai o natur ddeongliadol neu feirniadol, mae'r astudiaeth achos hon yn galluogi ymchwilwyr i greu dealltwriaeth fanwl, amlweddog o gwestiynau eang a chymhleth yn eu cyd-destunau bywyd go iawn, gyda chanfyddiadau y gellir eu trosglwyddo i gyd-destunau eraill. | Roedd y prosiect *Co-Creating Safe Spaces* yn fenter ymchwil gyfranogol yn y gymuned a ddarparodd fewnwelediadau manwl ar fanteision gwahanol fodelau gofod diogel, yn ogystal â heriau posibl a hwyluswyr ymarfer effeithiol. Defnyddiwyd y fframwaith gwerthuso i asesu canlyniadau allweddol oedd yn ymwneud â chyrhaeddiad, effeithiolrwydd, mabwysiadu, gweithredu a chynnal a chadw. | Gwerthusiad yn dilyn menter '*Co-Creating Safe Spaces*'. |
| Flynn, (2023) | Traethawd ymchwil | Cynnig dull perthynol i wella'r broses o rannu gwybodaeth yn rhagweithiol ac ymgysylltu â'r gymuned ar gyfer ymchwil yn Inuit Nunangat. | Gan ddefnyddio astudiaeth achos, mae'r gwaith hwn yn gwerthuso partneriaeth ymchwil gydweithredol gyda Llywodraeth Nunatsiavut, gan ddefnyddio cynllunio senarios cyfranogol ar gyfer llunio polisïau sy'n ymgysylltu â'r gymuned. | Roedd cyd-gynhyrchu gwybodaeth gyda phartneriaid ymchwil cymunedol a brodorol yn Inuit Nunangat yn ffocysu ar flaenoriaethau ymchwil, gwybodaeth a phrofiad i wella defnyddioldeb cynhyrchion ymchwil. | Prosiect ymchwil 3 blynedd a gynhaliwyd gan fyfyriwr PhD o Brifysgol Leeds. |

| Cyfeirnod | Math o lenyddiaeth | Cwmpas / Pwrpas yr erthygl | Dulliau | Rhannu gwybodaeth yn rhagweithiol | Gwybodaeth Ychwanegol |
|---|---|---|---|---|---|
| Freebairn et al., (2022) | Protocol | Mae’r protocol hwn yn disgrifio’r dulliau a ddefnyddir i ymgysylltu â chymunedau lleol gan ddefnyddio dulliau gwyddor systemau i rannu gwybodaeth yn rhagweithiol a chamau gweithredu i gryfhau gwasanaethau iechyd meddwl ieuenctid. | Gan ddefnyddio egwyddorion ymchwil gweithredu cyfranogol, mae'r tîm ymchwil yn ymgysylltu â chymunedau lleol i sicrhau prosesau modelu systemau cyfranogol a arweinir gan ddefnyddwyr a gwella arferion rhannu gwybodaeth yn rhagweithiol mewn safleoedd ymchwil. Mae lleisiau’r gymuned frodorol ac ynysoedd Culfor Torres wedi’u cynnwys. Mae proses dewis safle yn sicrhau bod y gymuned yn ymroddedig a bod ganddi’r gallu i gymryd rhan mewn gweithgareddau ymchwil. Mae ymgysylltu â rhanddeiliaid yn dechrau ar y cam dewis safle, gyda'r nod o feithrin ymddiriedaeth rhwng ymchwilwyr a rhanddeiliaid allweddol. Mae’r tîm ymchwil yn sefydlu amrywiaeth o adnoddau ymgysylltu ac yn darparu cyfleoedd wedi’u teilwra i gyd-destun lleol, anghenion a chynulleidfaoedd targed pob safle yn ystod y broses. | Mae'r protocol hwn yn disgrifio'r broses gynhwysol o ymgysylltu â'r gymuned a pharatoi gwybodaeth ar gyfer y rhaglen ymchwil *‘Right Care, First Time, Where You Live*’. Bydd fframwaith damcaniaethol hyblyg ar gyfer cymhwyso dulliau systemau i rannu gwybodaeth yn rhagweithiol yn galluogi gweithredu dull ymchwil gweithredu cyfranogol.Mae'r protocol hwn yn ymrwymo i broses ymgysylltu â rhanddeiliaid gadarn a dilys y gellir ei defnyddio wrth weithredu ymchwil iechyd meddwl. | Cynhaliwyd y prosiect gan Brifysgol Sydney. |

| Cyfeirnod | Math o lenyddiaeth | Cwmpas / Pwrpas yr erthygl | Dulliau | Rhannu gwybodaeth yn rhagweithiol | Gwybodaeth Ychwanegol |
|---|---|---|---|---|---|
| Grindell et al., (2022) | Adolygiad | I ddeall pam mae ymchwilwyr yn dewis mabwysiadu dulliau cyd-gynhyrchu, cyd-ddylunio a chyd-greu, sut maent yn rhannu gwybodaeth yn rhagweithiol wrth reoli cyflyrau iechyd, ac i ba raddau y llwyddir i rannu gwybodaeth yn rhagweithiol | Cynhwyswyd astudiaethau a ddefnyddiodd yn benodol y termau cyd-gynhyrchu, cyd-ddylunio, neu gyd-greu i rannu gwybodaeth yn rhagweithiol wrth reoli cyflyrau iechyd. Chwiliwyd y cronfeydd data canlynol: Web of Science, EMBASE drwy OvidSP, MEDLINE drwy OvidSP, a CINHAL drwy EBSCO. Cynhaliwyd asesiad ansawdd gan ddefnyddio rhestr wirio asesu ansawdd ansoddol Joanna Briggs Institute. Dilynwyd saith cam Pluye a Hong ar gyfer adolygiadau astudiaethau cymysg. Integreiddiwyd y data gan ddefnyddio proses integreiddio thematig. | Roedd y rheini a oedd yn defnyddio dulliau 'cyd-' yn credu y gellid rhannu gwybodaeth yn rhagweithiol drwy wahanol fecanweithiau, ond nid oedd unrhyw dystiolaeth bod y mecanweithiau hyn yn arwain at well iechyd. Efallai bydd y fframwaith o agweddau allweddol a mecanweithiau 'cyd-' a ddatblygwyd yn helpu ymchwilwyr i fodloni egwyddorion y dulliau hyn. Fodd bynnag, mae angen gwerthusiad cadarn i bennu a yw dulliau 'cyd-' yn cynhyrchu canlyniadau iechyd gwell. | Cynhaliwyd gan yr Uned Ymchwil Iechyd a Gofal, Prifysgol Sheffield. |

| Cyfeirnod | Math o lenyddiaeth | Cwmpas / Pwrpas yr erthygl | Dulliau | Rhannu gwybodaeth yn rhagweithiol | Gwybodaeth Ychwanegol |
|---|---|---|---|---|---|
| Grindell et al., (2022) | Astudiaeth empirig | Gwella arferion rhannu gwybodaeth yn rhagweithiol mewn gofal iechyd. Ymchwilio i effaith cyd-ddylunio creadigol ar y broses o rannu gwybodaeth yn rhagweithiol. I ddeall sut mae'n effeithio ar ddefnyddio gwybodaeth ymchwil mewn ymarfer clinigol arferol. | Cynhaliwyd cyfweliadau lled-strwythuredig gydag 20 o gyfranogwyr o 14 o brosiectau. Dadansoddwyd y data gan ddefnyddio'r dull Fframwaith. Cynhaliwyd gweithdy gyda'r 10 cyfranogwr cyntaf cyn y cyfweliadau a'r dadansoddiad terfynol. | Mae'r canfyddiadau'n dangos bod cyd-ddylunio creadigol yn hwyluso rhannu gwybodaeth yn rhagweithiol ym maes gofal iechyd yn llwyddiannus. Mae hyn yn cael ei gynrychioli gan dair thema rhyng-gysylltiedig: creadigol a gweledol; yn cael ei arwain gan ddylunio; a chreu'r amodau cywir. Mae'r themâu hyn yn tynnu sylw at sut mae'r dull yn cefnogi ymgysylltu ac yn creu man diogel ar gyfer rhannu ac integreiddio gwybodaeth mewn amgylchedd anhierarchaidd. | Cynhaliwyd y prosiect gan Brifysgol Sheffield. |

| Cyfeirnod | Math o lenyddiaeth | Cwmpas / Pwrpas yr erthygl | Dulliau | Rhannu gwybodaeth yn rhagweithiol | Gwybodaeth Ychwanegol |
|---|---|---|---|---|---|
| Hawke et al., (2024) | Sylwebaeth | Ar ôl adolygu'r llenyddiaeth ar wyddoniaeth profiad bywyd (iechyd meddwl neu ddefnyddio sylweddau), fe wnaethom gynnal dau ddigwyddiad rhannu gwybodaeth yn rhagweithiol i drosi'r canfyddiadau i bartneriaid perthnasol a chasglu eu hadborth i arwain ein gwaith ymchwil yn y dyfodol. | Cynhaliwyd digwyddiadau cynllunio prosiect a chaffael cyllid gyda grŵp cynghori pobl â phrofiad bywyd (PWLE), gyda dau unigolyn â phrofiad bywyd yn gyd-ymgeiswyr am gyllid. Cyd-hwyluswyd y digwyddiadau gan un person â phrofiad bywyd. Cyfrannodd cydgysylltydd ymchwil ym maes ymgysylltu â chleifion â phrofiad bywyd personol at ddatblygu a hwyluso digwyddiad rhannu gwybodaeth yn rhagweithiol. Cyfrannodd cydgysylltydd ymchwil ym maes ymgysylltu â theuluoedd, gydag arbenigedd mewn ymgysylltu ag ymchwil a phrofiad partneriaid teuluol, ymhellach at ddatblygu a hwyluso digwyddiadau. Daethpwyd â'r canlyniadau'n ôl i'r grŵp cynghori PWLE i'w trafod ac i bennu'r camau nesaf. Roedd un person mewn rôl PWLE yn gydawdur yr adroddiad, ochr yn ochr ag aelodau tîm â sawl safbwynt gwahanol, gan gynnwys rolau ymchwil a phrofiad bywyd. | Cynhaliwyd dau ddigwyddiad rhannu gwybodaeth yn rhagweithiol i drosi canfyddiadau i bartneriaid perthnasol a chasglu eu hadborth i lywio gwaith ymchwil yn y dyfodol. Daeth hyn â safbwyntiau pobl â phrofiad bywyd, aelodau teulu, staff ymchwil, hyfforddeion ymchwil, a gwyddonwyr at ei gilydd, yn ogystal â'r rheini a oedd yn bresennol mewn nifer o rolau. Cyflwynwyd canfyddiadau'r adolygiad cwmpasu, a dilynwyd hynny gan drafodaethau i ofyn am adborth ac annog rhannu safbwyntiau. | Cynhaliwyd gan y Centre for Addiction and Mental Health. |
| Hughes et al., (2024) | Sylwadau | I amlinellu egwyddorion a strategaethau ar gyfer cynnwys cleifion mewn gwaith ymchwil, gan gynnwys pennu blaenoriaethau ymchwil, nodi a dylunio ymyriadau, dewis canlyniadau, a lledaenu a throsi ymchwil. | Drwy gydol yr adroddiad hwn, trafodir amrywiaeth eang o ddulliau ar gyfer cynnwys cleifion ym mhob cam o'r gwaith ymchwil, a rhoddir enghreifftiau. | Mae un adran yn yr adroddiad hwn yn disgrifio cynnwys y cyhoedd yn y gwaith o ledaenu a throsi ymchwil. | Cydweithrediad rhwng Prifysgol Sydney a The Children's Hospital, Sydney, Awstralia. |

| Cyfeirnod | Math o lenyddiaeth | Cwmpas / Pwrpas yr erthygl | Dulliau | Rhannu gwybodaeth yn rhagweithiol | Gwybodaeth Ychwanegol |
|---|---|---|---|---|---|
| Hugh-Jones et al., (2024) | Astudiaeth empirig | Mae’r astudiaeth hon yn cyfrannu at allu’r sector cyhoeddus i weithio mewn ffyrdd sy’n ystyriol o drawma gyda phobl ifanc drwy gyd-ddylunio a gwerthuso’r broses o roi adnodd sefydliadol sy’n ystyriol o ieuenctid ar waith. Mae'r astudiaeth yn rhoi mewnwelediadau o ran yr hyn mae pobl ifanc a sefydliadau'r sector cyhoeddus yn y DU eisiau gan adnodd TIA at ddiben datblygu a gweithredu. | Mae hon yn astudiaeth garlam sydd wedi’i chyd-ddylunio ac sy’n seiliedig ar brofiad (AEBCD), sy’n cael ei dilyn gan werthusiad cyn-ac-ar-ôl. Cyd-fyfyriodd sefydliadau neu wasanaethau sector cyhoeddus a phobl ifanc perthnasol ar ddata profiad bywyd a gasglwyd drwy ymarfer celfyddydau creadigol, ochr yn ochr â data o setiau data cenedlaethol epidemioleg. Roedd y rhain yn cyflwyno gwybodaeth am effaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod ar iechyd meddwl pobl ifanc (cam 1). Ar y cyd, nodwyd blaenoriaethau (mannau cyffwrdd) ar gyfer ymatebion sefydliadol (cam 2), a chafodd adnodd baich isel ei gyd-ddylunio (cam 3) a’i gynnig i’w weithredu (cam 4) a’i werthuso (cam 5) mewn lleoliadau amrywiol. | Mae'r astudiaeth yn darparu mewnwelediadau o ran yr hyn mae pobl ifanc a sefydliadau'r sector cyhoeddus yn y DU eisiau gan adnodd TIA, profiad gwasanaethau / sefydliadau wrth weithredu hyn, ac argymhellion ar gyfer datblygu a gweithredu adnoddau. Rhannwyd y dysgu ar draws cyfranogwyr yr astudiaeth mewn gweithdy ar ddiwedd yr astudiaeth. Roedd cynnyrch gwybodaeth yn cynnwys gwefan a oedd yn cynnwys manylion am yr adnodd a gafodd ei greu, ffilm wedi’i chreu gan bobl ifanc yn dogfennu proses yr astudiaeth, elfennau’r adnodd a ddyluniwyd ar y cyd, a phrofiadau o weithredu, ochr yn ochr ag argymhellion. | Cynhaliwyd yr astudiaeth gan dair prifysgol sy'n cydweithio. |

| Cyfeirnod | Math o lenyddiaeth | Cwmpas / Pwrpas yr erthygl | Dulliau | Rhannu gwybodaeth yn rhagweithiol | Gwybodaeth Ychwanegol |
|---|---|---|---|---|---|
| Human Trafficking Foundation, (2023) | Adroddiad | Adolygu'r gwaith a wnaed gan LEAP rhwng mis Gorffennaf 2022 a mis Gorffennaf 2023. | Yn yr adolygiad, mae LEAP yn tynnu sylw at y prosiectau maen nhw wedi bod yn gweithio arnyn nhw, y sefydliadau maen nhw wedi cydweithio â nhw, a gweithgareddau eraill maen nhw wedi bod yn rhan ohonyn nhw, fel ymgynghori ar brosiectau ymchwil. | Mae rhan o'r adolygiad yn tynnu sylw at sut mae LEAP wedi gweithio i ddylanwadu ar bolisi. Mae enghreifftiau o rannu gwybodaeth yn rhagweithiol yn cynnwys: Cyflwynodd LEAP dystiolaeth ysgrifenedig i ymchwiliad y Pwyllgor Dethol Materion Cartref i fasnachu pobl, gan ddarparu tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor; Anfonodd LEAP lythyr agored at y Prif Weinidog hefyd, yn tynnu sylw at eu pryderon ynghylch effaith y Ddeddf Mudo Anghyfreithlon ar oroeswyr caethwasiaeth fodern. | LEAP (Lived Experience Advisory Panel) |
| Jones et al., (2024) | Sylwebaeth | Rhannu sut mae'r Ganolfan Ymchwil Heneiddio a Dementia yn cyd-ddylunio ymchwil mewn rhaglen waith genedlaethol i wella bywydau oedolion hŷn a'r rheini yr effeithir arnynt gan ddementia. Drwy enghreifftiau o'r gwaith hwn, mae'r awduron yn nodi'r rhwystrau a'r galluogwyr i ddulliau cyfranogol a gwersi i lywio gweithgareddau cyfranogiad yn y dyfodol. | Mae'r astudiaeth hon yn ystyried gweithredu Safonau'r DU ar gyfer Cynnwys y Cyhoedd yn ymarferol. O berthnasedd rhyngwladol, mae'r arsylwadau'n rhychwantu'r broses ymchwil, o flaenoriaethu a dylunio i weithredu a chyfnewid gwybodaeth. | Trefnir digwyddiadau cyfnewid gwybodaeth gydag arbenigwyr–trwy-brofiad fel rhan annatod o'r rhaglen ymchwil i ddementia. | Rhan o DEEP (Dementia Engagement and Empowerment Project) |

| Cyfeirnod | Math o lenyddiaeth | Cwmpas / Pwrpas yr erthygl | Dulliau | Rhannu gwybodaeth yn rhagweithiol | Gwybodaeth Ychwanegol |
|---|---|---|---|---|---|
| Langley et al., (2017) | Papur cynhadledd | Archwilio cyfraniad theori rhannu gwybodaeth yn rhagweithiol ym maes iechyd, ar a thrwy'r ymarfer dylunio, yn benodol gweithdai cyd-ddylunio. | Drwy ymarfer Lab4Living a Dylunio Gofal Iechyd sy'n canolbwyntio ar y Defnyddiwr, cafodd yr awdur brofiad o ddylunio ym maes gofal iechyd gan ddefnyddio dulliau cyd-ddylunio ar gyfer gwaith ymchwil cyfranogol, gwella gwasanaethau, ac ailgynllunio gwasanaethau. | Nod y papur yw dadansoddi manylion rhannu gwybodaeth yn rhagweithiol, dylunio, a pherthnasoedd arferion creadigol drwy enghreifftiau o astudiaethau achos. | Yn ymgysylltiol â Lab4Living (grŵp rhyngddisgyblaethol sy'n cael ei arwain gan ddylunio) ac User-centred Healthcare Design (www. uchd.org.uk). |
| Langley et al., (2018) | Sylwebaeth | Mewn model cyd-ddylunio, mae'r papur hwn yn cynnig dull penodol o rannu, gweithredu a rhannu gwybodaeth yn rhagweithiol, y maent wedi'i alw'n 'wneud ar y cyd'. | Mewn proses gyd-ddylunio dan arweiniad dylunwyr, defnyddir portffolio o dechnegau o'r enw 'dulliau cynhyrchiol'. Mae'r rhain yn ymdrin ag ystod eang o weithgareddau lle mae cyfranogwyr cyd-ddylunio yn cael eu 'harwain' i gasglu profiadau, gwybodaeth (ymhlyg, dealledig, ymgorfforedig), arferion, ymddygiadau a syniadau. Nodwedd unigryw'r gweithgareddau hyn sy'n cael eu hwyluso gan ddylunwyr yw eu bod yn cynnwys rhyw fath o 'wneud'. Mae'r broses o greu yn helpu cyfranogwyr cyd-ddylunio i archwilio, myfyrio, ac ystyried profiadau, ac i'w rhannu, esbonio, a'u mynegi, a chymharu eu profiadau â phrofiadau pobl eraill. | Mae'r erthygl yn awgrymu bod gan y broses o greu ar y cyd dri maes o ddylanwad: ar y cyfranogwyr, ar yr wybodaeth sy'n cael ei chanfod a'i rhannu, ac ar roi'r wybodaeth hon ar waith. | Cynhyrchwyd gan Lab4Living (grŵp rhyngddisgyblaethol sy'n cael ei arwain gan ddylunio). |
| Lazarus, (2018) | Pennod mewn llyfr | Daw'r bennod hon o'r llyfr *Power and Identity in the Struggle for Social Justice* ac mae'n tynnu sylw at brofiad yr awdur o gynnal gwaith ymchwil gweithredu cyfranogol yn Ne Affrica yn ystod y 1980au a'r 1990au. | Wrth weithio i'r Uned Polisi Addysg, cydweithiodd yr awdur â myfyrwyr mewn ysgolion i nodi camau i'w cymryd yn y frwydr addysg yn yr ysgolion hynny. Defnyddiwyd dull cyfranogol a oedd yn cynnwys myfyrwyr yn y broses ymchwil. Roedd y broses gyfranogol yn y prosiect hwn yn cynnwys datblygu nodau ymchwil a chamau gweithredu ar y cyd. | Cafodd camau gweithredu eu nodi ar y cyd i'w rhoi ar waith mewn ysgolion. Datblygodd y myfyrwyr daflenni gwybodaeth cyhoeddus i rannu'r canfyddiadau âdisgyblion yn yr ysgolion. | Cyflogwyd yr awdur gan yr Uned Polisi Addysg (De Affrica). |

| Cyfeirnod | Math o lenyddiaeth | Cwmpas / Pwrpas yr erthygl | Dulliau | Rhannu gwybodaeth yn rhagweithiol | Gwybodaeth Ychwanegol |
|---|---|---|---|---|---|
| Loizidou et al., (2023) | Astudiaeth empirig | Yn yr astudiaeth hon, ymgysylltwyd â rhanddeiliaid dethol o bedair ardal arfordirol Môr y Canoldir, sy'n agored iawn i effeithiau Cynnydd yn Lefel y Môr (SLR), drwy broses gyfranogol strwythuredig ar gyfer datblygu Adnoddau Polisi sy'n canolbwyntio ar ddatrysiadau, ac sy'n benodol i achos ac yn benodol i safle, er mwyn mynd i'r afael â SLR. | Rhoddwyd dull ac offer cyfranogol DeCyDe-4 ar waith. Mae'r dull cefnogi penderfyniadau addasadwy, penodol i safle a phenodol i achos yn arwain at benderfyniadau gwybodus, sy'n seiliedig ar wyddoniaeth ac y gellir eu cyfiawnhau ar faterion sy'n ymwneud â chynaliadwyedd a gwytnwch. Rhoddwyd DeCyDe-4-SLR ar waith mewn pedwar cam: 1) Astudiaeth Gwaelodlin, lle mapiwyd rhanddeiliaid, cofnodwyd canfyddiadau sylfaenol drwy gyfweliadau lled-strwythuredig, a chofnodwyd gwybodaeth berthnasol drwy daflenni ffeithiau; 2) datblygwyd adnoddau ar gyfer gweithredu DeCyDe-4-SLR yn llwyddiannus; 3) cynhaliwyd gweithdai rhanddeiliaid cyfranogol; 4) cyfunwyd allbynnau ar gyfer datblygu Offer Polisi. | Defnyddiodd yr Adnoddau Polisi a ddatblygwyd yn yr astudiaeth hon wybodaeth o gamau blaenorol y dull i ddiffinio cynllun gweithredu gan ymateb i'r anghenion mwyaf dybryd a nodwyd ym mhob safle. | Cynhyrchwyd gan Isotech Ltd Environmental Research and Consultancy, Nicoa, Cyprus. |
| MacGregor et al., (2022) | Astudiaeth empirig | I archwilio'r defnydd o ddulliau sy'n seiliedig ar y celfyddydau ar draws tri phrosiect ar gyfer cyd-gynhyrchu ym maes addysg. | Cynhaliwyd gwaith dylunio aml-achos ac integreiddio traws-achos ar draws tair astudiaeth a oedd yn defnyddio dulliau wedi'u llywio gan y celfyddydau. Un ffocws cyffredin ar draws yr achosion oedd defnyddio tystiolaeth yn y sector addysg K-12, er bod pob un yn ymwneud â'r ffocws hwn drwy gynnwys gwahanol fathau o dystiolaeth a setiau o randdeiliaid addysg. | Roedd y prosiect yn ffocysu ar sut mae dulliau gweithredu sydd wedi'u llywio gan y celfyddydau ar gyfer cyd-gynhyrchu yn creu cyfleoedd ar gyfer rhannu gwybodaeth yn rhagweithiol. | Cynhyrchwyd gan Queen's University, Canada. |

| Cyfeirnod | Math o lenyddiaeth | Cwmpas / Pwrpas yr erthygl | Dulliau | Rhannu gwybodaeth yn rhagweithiol | Gwybodaeth Ychwanegol |
|---|---|---|---|---|---|
| Machin et al., (2023) | Sylwadau | I gyflwyno gofynion ar gyfer cyd-gynhyrchu ar gam cymhwyso Fframwaith 4Pi, gan fyfyrio ar nodweddion penodol cyd-gynhyrchu mewn ymchwil cyflym. Trafodwyd cryfderau a heriau cynnwys Ymchwilwyr Profiad Bywyd mewn ymchwil cyflym, gydag argymhellion yn cael eu darparu i sicrhau cyfranogiad ystyrlon. | Mae'r fframwaith 4Pi, a ddatblygwyd gan bobl sydd â phrofiad bywyd ac a gafodd ei gyd-gynhyrchu gan y National Survivor User Network (NSUN), yn cael ei ddefnyddio yn yr erthygl hon i drafod y gofynion ar gyfer cyd-gynhyrchu. Mae 4Pi yn cyfeirio at *Principles, Purpose, Presence, Process ac Impact*. | Mae'r erthygl yn tynnu sylw at sut y gellir diystyru lledaenu gwybodaeth fel rhan o'r Effaith (*Impact* - yr elfen olaf) fel rhan annatod o'r broses ymchwil a'i golli wrth i dimau academaidd symud ymlaen i'w prosiect nesaf. Pan fydd lledaenu'n cael ei ystyried yn weithgaredd sy'n digwydd ar ôl i'r prosiect gael ei gwblhau, gall LERs gael eu heithrio'n anfwriadol, gan orliwio'r llafur emosiynol o gyd-gynhyrchu. Fodd bynnag, mae gwaharddiad o'r fath yn gyfle a gollwyd: Mae LERs yn dod â rhwydweithiau a sgiliau ychwanegol, a allai arwain at fanteision o ran sicrhau bod canlyniadau'r astudiaeth yn cyrraedd cynulleidfa ehangach y tu hwnt i gynulleidfaoedd arferol academyddion traddodiadol. | Cynhyrchwyd Fframwaith 4Pi gan y National Survivor Userr Network (NSUN). |

| Cyfeirnod | Math o lenyddiaeth | Cwmpas / Pwrpas yr erthygl | Dulliau | Rhannu gwybodaeth yn rhagweithiol | Gwybodaeth Ychwanegol |
|---|---|---|---|---|---|
| McCloskey et al., (2021) | Astudiaeth empirig | I nodi themâu allweddol sy'n ymwneud â bylchau mewn gofal ac achosion sylfaenol annhegwch mewn gofal ar ôl bod yn feichiog, yn enwedig ar gyfer menywod Du, Brodorol a menywod eraill o liw. | Cafodd y fenter *Bridging the Chasm between Pregnancy and Health across the Life Course* ei lansio, gan ddod â chleifion, eiriolwyr, darparwyr, ymchwilwyr, llunwyr polisïau ac arloeswyr systemau at ei gilydd i greu Agenda Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil a Gweithredu. Cynhadledd 2 ddiwrnod yn cyfuno adrodd straeon, dadansoddi tystiolaeth, a chreu consensws i nodi themâu allweddol sy'n gysylltiedig â bylchau mewn gofal a gwreiddiau'r hyn sy'n achosi annhegwch. Ymunodd rhanddeiliaid â chwe gweithgor i ddod i gonsensws ar flaenoriaethau strategol sy'n seiliedig ar degwch, arloesedd, effeithiolrwydd a dichonoldeb. | Cynhaliodd pob gweithgor bum galwad cynadledda dros bum mis, gan wthio'r Agenda drwy broses gonsensws i greu: 1) datganiad o broblem, 2) cyfosodiad o ganfyddiadau yn seiliedig ar ddadansoddiad o lenyddiaeth lwyd, llenyddiaeth a adolygwyd gan gymheiriaid, a chyfweliadau gyda hysbyswyr allweddol, a 3) rhestr o flaenoriaethau strategol ar gyfer yr *Agenda for Action and Research to Bridge the Chasm*. | Cynhaliwyd gan y Bridging the Chasm Collaborative. |
| McEwan et al., (2022) | Astudiaeth empirig | I werthuso methodoleg cyfnewid gwybodaeth ac ymchwil gyfranogol, trawsddisgyblaethol, unigryw a ddatblygwyd yn y prosiect, *Drought Risk and You (DRY)*, a'i gynnig fel fframwaith trosglwyddadwy i eraill sy'n ymgysylltu â rhanddeiliaid a chysylltiadau systemig â risg amgylcheddol. | Defnyddiwyd methodoleg ymchwil aml-ddull werthusol ar gyfer y broses hon, gan ddefnyddio arolygon, gwerthusiadau myfyriol mewn cyfarfodydd, a chyfweliadau naratif crynodol lled-strwythuredig. Mae'r papur hwn yn myfyrio ar brofiadau cyfranogwyr o ddatblygu modelau gwyddonol 'agored', dulliau 'adrodd stori', a'u rhyngweithio ailadroddol. | Mae'r prosiect yn cynnig fframwaith ymchwil trosglwyddadwy sy'n hyrwyddo cyfnewid gwybodaeth am wyddoniaeth mewn ffordd gyfranogol, seiliedig ar le a naratif, ar gyfer adeiladu cyfalaf lleol i reoli risg amgylcheddol systemig. | Cynhaliwyd gan y Centre for Water, |

| Cyfeirnod | Math o lenyddiaeth | Cwmpas / Pwrpas yr erthygl | Dulliau | Rhannu gwybodaeth yn rhagweithiol | Gwybodaeth Ychwanegol |
|---|---|---|---|---|---|
| McKendrick et al., (2021) | Adolygiad | I werthuso sut mae'r rheini sydd â phrofiad bywyd o dlodi yn ymwneud â chyd-gynhyrchu polisi a datblygu gwasanaethau. Roedd gan y Comisiwn ddiddordeb arbennig mewn arferion sy'n berthnasol i gyd-destun yr Alban, a sut mae'r rhain yn alinio ag arferion gorau sy'n cael eu cyflwyno mewn llenyddiaeth academaidd wrth gynnwys arbenigwyr-trwy-brofiad mewn cyd-gynhyrchu. | Roedd yr adolygiad cyflym hwn yn cynnwys enghreifftiau o gyfranogiad y gellid eu hystyried yn gyd-gynhyrchu gwirioneddol ac effeithiol. Cynhaliwyd cyfres o chwiliadau ailadroddol ac wedi'u mireinio i ddod o hyd i ffynonellau perthnasol gan ddefnyddio Google Scholar a chafodd teitlau a chrynodebau eu sgrinio yn erbyn meini prawf cymhwysedd. | Mae'r adroddiad ei hun yn rhannu gwybodaeth yn rhagweithiol am gyd-gynhyrchu polisïau a chyflenwi gwasanaethau yn yr Alban. Mae'n cynnwys gwaith i wella'r gwaith o ddylunio a darparu gwasanaethau, deall materion allweddol yn well, ymgysylltu â chymunedau, mynegi blaenoriaethau polisi, a gwerthuso gwasanaethau. | Rhoddodd y Comisiwn Tlodi ac Anghydraddoldeb dasg i'r Scottish Poverty & Inequality Research Unit (SPIRU) o Glasgow Caledonian University i gynnal yr adolygiad cyflym hwn. |
| McQuaid et al., (2021) | Sylwebaeth | I archwilio sut y gall celfyddydau cymhwysol, sy'n cael eu harwain gan ymchwil, ddatblygu methodolegau cyfranogol i bontio'r bwlch rhwng gwaith ymchwil cyfranogol er mwyn ymgysylltu'n ystyrlon â merched o fewn y broses ymchwil, a phrosesau cyfnewid gwybodaeth sy'n cysylltu llunio polisïau â'u profiadau bywyd. | Gan ddefnyddio methodoleg gymysg greadigol, gan leoli allbynnau gweledol, materol a chreadigol ochr yn ochr â'i gilydd, casglwyd safbwyntiau gan ystod o randdeiliaid, ar yr un pryd â meithrin gallu 54 o ferched o ysgol y llywodraeth i ymgysylltu â'r broses o gynhyrchu gwybodaeth drwy fynegiant creadigol. | Yn yr ail gam, cafodd gweithdai bob pythefnos eu hwyluso i weithio gyda merched ar ddefnyddio'r dystiolaeth hon i ddatblygu cyfres o dri digwyddiad creadigol, wedi'u harwain gan ymchwil, sy'n ymwneud ag ymyriadau perfformiad. | Partneriaeth rhwng Prifysgol Leeds, Prifysgol Makerere, Jinja Municipal Council ac un ysgol gynradd y llywodraeth yn Walukuba/ Masese. |

| Cyfeirnod | Math o lenyddiaeth | Cwmpas / Pwrpas yr erthygl | Dulliau | Rhannu gwybodaeth yn rhagweithiol | Gwybodaeth Ychwanegol |
|---|---|---|---|---|---|
| Powell et al., (2013) | Protocol | Roedd yr astudiaeth iechyd poblogaeth hon yn Port Lincoln, De Awstralia, yn cynnig y cyfle i ddatblygu a chymhwyso'r *Co-Knowledge Transaction Framework* i'r holl broses ymchwil. Mae hwn yn fframwaith newydd a ddyluniwyd i hwyluso creu gwybodaeth ar y cyd rhwng ymchwilwyr a chymunedau drwy gydol y broses weithredu ymchwil-i-ymyrryd. | Mae'r astudiaeth hon yn defnyddio fframwaith pum cam (y *co-KT Framework*) sy'n seiliedig ar egwyddorion ymchwil gweithredol ac ysgolheictod ymrwymedig. Drwy ddilyn y camau hyn, bydd sylfaen wybodaeth yn cael ei chyd-greu â phoblogaeth yr astudiaeth sy'n ddefnyddiol i nodau'r ymchwil. | Mae'r *co-KT Framework* yn ddull o wreiddio egwyddorion trosglwyddo gwybodaeth ym mhob cam y broses ymchwil yn y gymuned. Yn benodol, mae Cam 2 yn mireinio'r mater ymchwil a'r sylfaen wybodaeth drwy integreiddio manylion sy'n benodol i gyd-destun a chynnal digwyddiadau cyfnewid gwybodaeth. Mae Cam 3 yn ymwneud â dehongli a dadansoddi'r sylfaen wybodaeth ac integreiddio tystiolaeth i lywio'r gwaith o ddatblygu ymyriadau. | Ariennir gan y Cyngor Ymchwil Meddygol ac Iechyd Cenedlaethol. |

| Cyfeirnod | Math o lenyddiaeth | Cwmpas / Pwrpas yr erthygl | Dulliau | Rhannu gwybodaeth yn rhagweithiol | Gwybodaeth Ychwanegol |
|---|---|---|---|---|---|
| Phipps et al., (2021) | Astudiaeth empirig | I symud ffocws actorion rhyng-sectorol tuag at y ffactorau cyd-destunol sy'n cyfrannu at annhegwch iechyd drwy Ymarfer Rhyng-sectorol sy'n Ffocysu ar Degwch (EquIP), sef methodoleg newydd sy'n uno egwyddorion ymchwil cyfranogol â lleoli strategol arbenigedd sylfaenol, seiliedig ar brofiadau bywyd. | Cafodd RentSafe EquIP ei greu ar y cyd fel gwaith ymchwil gweithredu cyfranogol a'i roi ar waith rhwng 2016 a 2019 gan dîm ymchwil a oedd yn cynnwys ymchwilwyr academaidd ac ymchwilwyr cymunedol ag arbenigedd sylfaenol mewn annigonolrwydd tai, a oedd hefyd yn dod â phrofiadau Brodorol, rhianta unigol, trawma a gwytnwch, ac arweinyddiaeth eiriolaeth cymheiriaid. Cafodd gwaith y tîm ei ategu gan bwyllgor cynghori ar ymchwil, a oedd yn ymwneud â phob cam o ddylunio a gweithredu'r gwaith ymchwil. | • Rhannwyd adroddiad ymchwil drafft â'r holl gyfranogwyr er mwyn cael adborth.<br><br>• Cyflwynwyd yr adroddiad ymchwil terfynol mewn cyfarfod bwrdd rhyng-sectorol lefel uchel (~70 o bobl yn bresennol).<br><br>• Cynhaliwyd cyfarfod bwrdd crwn RentSafe-Owen Sound yn dilyn y briffio ffurfiol (50 o bobl yn bresennol).<br><br>• Penderfynodd cyfranogwyr y gwaith ymchwil, ac eraill, i barhau i ymgynnull fel rhan o RentSafe yn Owen Sound. | Cydweithrediad rhwng y Centre for Environmental Health Equity a Queen's University. |
| Redman et al., (2021) | Sylwebaeth | I grynhoi'r erthyglau yng nghasgliad BMJ, *Co-producing Knowledge*, ac awgrymu nifer o ystyriaethau ar gyfer cyd-gynhyrchu. | Mae'r erthygl yn crynhoi pedair ystyriaeth wahanol ar gyfer cyd-gynhyrchu: a) mae'n ddibynnol iawn ar gyd-destun; b) mae'n gofyn am ymddiriedaeth, rhannu pŵer go iawn, a pharch at wahanol arbenigeddau pob rhanddeiliad; c) mae gofynion ymarferol; a d) mae'n gofyn am ddull gweithredu gwahanol ar gyfer cyllid ymchwil. | Mae'r erthygl yn tynnu sylw at sut mae cyd-gynhyrchu wedi'i ddefnyddio i adeiladu sgiliau a systemau sy'n cynyddu'r defnydd o ymchwil gan asiantaethau polisi. | Ar ran y Co-production of Knowledge Collection Steering Committee. |

| Cyfeirnod | Math o lenyddiaeth | Cwmpas / Pwrpas yr erthygl | Dulliau | Rhannu gwybodaeth yn rhagweithiol | Gwybodaeth Ychwanegol |
|---|---|---|---|---|---|
| Reid et al., (2023) | Astudiaeth Empirig | I ymchwilio i sut roedd cydweithredwyr yn ystyried ac yn disgrifio eu cysylltiad â *Raising the Curtain*, prosiect ymchwil cyfranogol yn y gymuned, gan ffocysu ar eu cyfranogiad cymdeithasol a'u gallu i gyfleu negeseuon cymdeithasol am ddementia. | Yn y prosiect ymchwil cyfranogol yn y gymuned (CBPR), *Raising the Curtain on the Lived Experiences of Dementia*, cymerodd un ar ddeg o unigolion oedd yn byw gyda dementia ran fel 'cydweithredwyr cymheiriaid' mewn gweithdai cyd-greadigol wythnosol dros ddwy flynedd. Defnyddiwyd data a gasglwyd o'r gweithdai, gan gynnwys trawsgrifiadau (8) a chyfweliadau gwerthuso un-i-un (103), at ddiben dadansoddi. | *Raising the Curtain*: prosiect sy'n rhannu gwybodaeth yn rhagweithiol am fyw gyda dementia. | Cydweithrediad rhwng y Vancouver Foundation a'r Social Sciences and Humanities Research Council of Canada. |
| Santaella et al., (2023) | Papur cynhadledd | I gyflwyno cynnwys Arbenigwyr Profiad Bywyd wrth ddylunio Glasbrint Ymchwil Cenedlaethol y Sefydliad Hemoffilia Cenedlaethol ar gyfer unigolion sy'n byw gydag anhwylderau gwaedu etifeddol. | Cafodd saith gweithgor amlddisgyblaethol eu creu. Cafodd y gweithgorau y dasg o fynd i'r afael â chwestiynau hanfodol wrth greu, cynnal ac, yn y pen draw, ehangu'r rhwydwaith ymchwil sy'n ffocysu ar Arbenigwyr Profiadau Bywyd. Casglwyd gwybodaeth ddemograffig sylfaenol ar gyfer aelodau'r gweithgorau. O'r 62 aelod, roedd 30 yn Arbenigwyr Profiad Bywyd. | Mae'r gweithgorau'n cynnwys y rheini sy'n gyfrifol am weithgareddau rhannu gwybodaeth yn rhagweithiol, gan gynnwys swyddogion 'Polisi, Ymchwil | Cyflwynwyd gan y Sefydliad Hemoffilia Cenedlaethol. |
| Sinclair et al., (2023) | Astudiaeth empirig | I nodi'r 10 prif flaenoriaeth ar gyfer adeiladu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer ymchwil, polisi ac ymarfer clinigol ar gyfer oedolion awtistig sydd ag anhwylderau cysylltiedig â defnyddio alcohol neu sylweddau arall (AUD/SUD). | Defnyddiwyd partneriaeth pennu blaenoriaethau, a oedd yn cynnwys pwyllgor llywio rhyngwladol a rhanddeiliaid o wahanol gefndiroedd, gan gynnwys pobl sydd â phrofiad bywyd o awtistiaeth a/neu gaethiwed. Yn gyntaf, defnyddiwyd arolwg ar-lein i nodi cwestiynau allweddol am ddefnyddio sylweddau, defnyddio alcohol, neu gaethiwed ymddygiadol ymhlith pobl awtistig (SABA-A). Cafodd y cwestiynau cychwynnol hyn eu hadolygu a'u diwygio gan randdeiliaid, ac yna eu dosbarthu a'u mireinio i ffurfio'r rhestr derfynol o brif flaenoriaethau drwy broses gonsensws ar-lein. | a Datblygu' ac "Ymgysylltu â'r Gymuned". | Ariannwyd yr astudiaeth gan grant gan y Society for the Study of Addiction (SSA), a'i chynnal gan Brifysgol Southampton. |

| Cyfeirnod | Math o lenyddiaeth | Cwmpas / Pwrpas yr erthygl | Dulliau | Rhannu gwybodaeth yn rhagweithiol | Gwybodaeth Ychwanegol |
|---|---|---|---|---|---|
| Tremblay & Jayme, (2015) | Astudiaeth empirig | I ddisgrifio proses a chanlyniadau prosiect fideo cyfranogol sy’n defnyddio fideos fel cyfrwng cyfathrebu i wella deialog gyda llunwyr polisïau mewn tri rhanbarth trefol ym maes ailgylchu. | Yn ystod gweithdy wythnos o hyd, cafodd arweinwyr o fentrau cydweithredol oedd yn cymryd rhan eu hyfforddi mewn technoleg fideo, datblygu byrddau stori, a chyfryngau ôl-gynhyrchu. Drwy fenter ymchwil gweithredu cyfranogol, cafodd pedair rhaglen ddogfen fer eu cyd-gynhyrchu dros ddwy flynedd, a datblygwyd cynllun ymchwil cydweithredol i ddefnyddio'r fideos fel cyfrwng cyfathrebu i hwyluso deialog gyda llunwyr polisi mewn tri rhanbarth trefol. | Roedd hwn yn brosiect rhannu gwybodaeth yn rhagweithiol i rannu gwybodaeth yn rhagweithiol am raglenni ailgylchu i lunwyr polisi. | Cynhaliwyd gan ddwy brifysgol yng Nghanada. |
| Thom et al., (2022) | Astudiaeth empirig | I ddisgrifio prosiect cyd-gynhyrchu kaupapa Māori o’r enw He Ture Kia Tika/Let the Law be Right, gan dynnu sylw at sut roedd kaumātua (henaduriaid Máori brodorol), academyddion, ac ymarferwyr yn uno eu lleisiau â phobl â profiadau bywyd o iechyd meddwl, dibyniaeth, a’r carchar i greu polisïau cyfiawnder a datrysiadau. | Mae'r astudiaeth yn ffocysu ar ddamcaniaeth a chymhwyso cyd-gynyrchiadau, o dan gyfarwyddyd methodoleg kaupapa Māori. Mae’n disgrifio gwaith grŵp cyd-ddylunio sy’n tywys y prosiect yn weithredol o’r dechrau i’r diwedd. Mae manylion y prosesau o gasglu straeon (pūrākau) sydd wedi’u cyd-greu gan aelodau o 40 o deuluoedd (whānau) i'w gweld ochr yn ochr â’r cydweithredu parhaus i sicrhau bod argymhellion polisi a’r gyfraith yn canolbwyntio ar brofiadau bywyd. | Mae'r astudiaeth yn ffocysu ar lywio polisïau sy'n seiliedig ar dystiolaeth drwy gyd-gynhyrchu â'r rhai sydd â phrofiad bywyd. | Cefnogir gan Sefydliad Michael a Suzanne Borrin. |

| Cyfeirnod | Math o lenyddiaeth | Cwmpas / Pwrpas yr erthygl | Dulliau | Rhannu gwybodaeth yn rhagweithiol | Gwybodaeth Ychwanegol |
|---|---|---|---|---|---|
| Walker et al., (2021) | Astudiaeth empirig | I ddisgrifio a myfyrio ar y dulliau ac effaith cynnwys pobl ifanc sydd â phrofiad bywyd wrth integreiddio tystiolaeth cymhleth. | Arweiniwyd y cyfranogiad gan arweinydd ymchwil profiadol ym maes cyfranogiad cleifion a'r cyhoedd. Gwahoddwyd pobl ifanc â chyflyrau corfforol a phroblemau iechyd meddwl hirdymor i ymuno â Grŵp Cynghori Plant a Phobl Ifanc (CYPAG) sy'n benodol i'r astudiaeth. Cyfarfu'r CYPAG ar bedwar achlysur yn ystod y prosiect, gydag unigolion yn parhau i gyfrannu at ledaenu ar ôl cyflwyno'r adroddiad. | Fe wnaeth y Grŵp Cynghori Pobl Ifanc integreiddio tystiolaeth ac maent wedi parhau i gyfrannu at y broses ledaenu ar ôl cyflwyno'r adroddiad. | Cynhaliwyd gan NIHR Biomedical Research Centre |
| Willis et al., (2024) | Astudiaeth empirig | I adrodd ar Banel Dinasyddion, grŵp cynrychioliadol o bobl sy'n gweithio gydag arbenigwyr, i greu argymhellion polisi wedi'u cyd-ddylunio ar gyfer lleihau allyriadau carbon o gartrefi. | Cafodd y dull gweithredu ar gyfer y Panel Dinasyddion ei ddylunio gan yr ymchwilwyr, gan weithio gyda'r Pwyllgor Newid Hinsawdd a'r arbenigwyr hwyluso, Shared Future. Cafodd ei oruchwylio gan banel cynghori annibynnol a'i werthuso gan dîm ar wahân o ymchwilwyr academaidd. Cafodd dyluniad y broses ei lywio gan adolygiad a gynhaliwyd gan y tîm ymchwil i'r defnydd o brosesau cyd-gynghorol wrth lunio polisïau (dilëwyd y cyfeiriad i gynnal anhysbysrwydd). | Yn achos y Panel hwn, darparodd yr allbynnau dystiolaeth i lywio gwaith y Pwyllgor Newid Hinsawdd. Ar ôl cyhoeddi adroddiad y Panel, ysgrifennodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd at y gweinidog yn y llywodraeth sy'n gyfrifol am ddefnyddio ynni yn y cartref i dynnu ei sylw at ganfyddiadau'r Panel. | Cydweithrediad rhwng Shared Future a Phrifysgol Caerhirfryn. |
| Wydall et al., (2023) | Astudiaeth empirig | I archwilio'r defnydd o gyd-gynhyrchu wrth greu'r ffilm 'Do You See Me?' i gyfnerthu lleisiau grŵp 'anodd ei gyrraedd': dioddefwyr cam-drin domestig lesbiaidd, hoyw a deurywiol hŷn. | Defnyddiwyd dulliau ansoddol fel rhan o gyd-gynhyrchu, gan gynnwys dau grŵp ffocws i ymarferwyr ac 14 o gyfweliadau naratif gyda phobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol, trawsryweddol, cwiar neu unigolion sy'n cwestiynu, neu'r gymuned (LHDTC+), dioddefwyr-oroeswyr. | Mae 'Do You See Me?' yn ffilm chwe munud o hyd, a gafodd ei chyd-gynhyrchu gan nifer o randdeiliaid fel rhan o adnodd codi ymwybyddiaeth am brofiadau bywyd unigolion lesbiaidd, hoyw a deurywiol hŷn sy'n ddioddefwyr-oroeswyr. | Cynhyrchwyd gan Brifysgol Aberystwyth, gyda chymorth ariannol Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, ac fe gomisiynwyd y ffilm gan Dewis Choice. |

# Awduron yr adroddiad

Dr **Katie Crompton** oedd y Cynorthwyydd Ymchwil ar gyfer Cymrodoriaeth Polisi ESRC. Mae gan Katie gefndir mewn Addysg a Seicoleg ac, yn ddiweddar, cwblhaodd ei PhD mewn Seicoleg Plant ym Mhrifysgol Portsmouth.

Mae Dr **Rounaq Nayak** yn Gymrawd Polisi ESRC sydd wedi'i secondio i Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru o Brifysgol Gorllewin Lloegr Bryste, lle maent yn Uwch Ddarlithydd mewn Systemau Ffermio. Mae'r secondiad yn cynnwys gwella dealltwriaeth, gallu a sgiliau cynhyrchwyr tystiolaeth, ymchwilwyr polisi, llunwyr polisi ac ymarferwyr o ran cynnwys arbenigwyr-trwy-brofiad yn eu gwaith. Mae gan Rounaq gefndir ym maes cyd-gynhyrchu ymchwil a chyd-ddylunio ymyriadau gyda'r rheini y mae polisïau amrywiol yn effeithio arnynt, i hyrwyddo a datblygu dull o ymchwilio a datblygu polisi sy'n canolbwyntio ar bobl.

Mae **Amanda Hill-Dixon** yn Uwch-gymrawd Ymchwil a Chyfarwyddwr y Rhaglen yng Nghanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (WCPP). Mae Amanda yn arwain maes blaenoriaeth anghydraddoldebau WCPP, a'n gwaith gyda gwasanaethau cyhoeddus yn ehangach. Mae hi wedi gweithio ym maes ymchwil polisi cyhoeddus ers dros ddegawd, a chyn hynny bu'n gweithio yn The Young Foundation a Cordis Bright.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
**Arweinydd WCPP**
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru
+44 (0) 29 2087 5345
info@wcpp.org.uk



# Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru


Prifysgol Caerdydd
Sbarc | Spark
Heol Maendy
Caerdydd
CF24 4HQ

www.wcpp.org.uk/cy
029 2087 5345
info@wcpp.org.uk
@WCfPP



Economic and Social Research Council
Llywodraeth Cymru Welsh Government
Cardiff University Prifysgol Caerdydd